

**Adolygiad o Wasanaeth Cynrychiolaeth Masnach
Cyngor Llyfrau Cymru**

**David Kewley
Paul Richardson**

Gorffennaf 2005

Ysgrifennwyd yr adroddiad gwreiddiol yn Saesneg.

Rhagair

Comisiynwyd yr adolygiad hwn gan Gyngor Llyfrau Cymru ar ôl proses o dendro cystadleuol ac fe'i cynhaliwyd rhwng misoedd Ebrill a Mehefin 2005. Penderfynodd Cyngor Llyfrau Cymru gynnal yr adolygiad am sawl rheswm. Y mae'n amserol mewn perthynas â newidiadau cyffredinol yn sector manwerthu llyfrau'r Deyrnas Gyfunol; y mae hefyd heriau a chyfleoedd penodol yn y farchnad yng Nghymru ac mae newidiadau yng nghylch gorchwyl Cyngor Llyfrau Cymru ei hun. Mae'r adolygiad hefyd yn ymateb i'r awgrym yn adolygiad Peter Kilborn ar y Ganolfan Ddosbarthu yn 2001*, sef y dylid cael arolwg ar wahân o'r gwasanaeth cynrychiolaeth masnach.

Y prif amcan a osodwyd i'r adolygiad oedd 'awgrymu ffyrdd o wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y gwasanaeth a thrwy hynny gynyddu gwerthiant, gan gofio am anghenion cyhoeddwr a llyfrwerthwyr yng Nghymru ond gan sicrhau ar yr un pryd hyfywedd y Ganolfan Ddosbarthu i'r dyfodol.' Mae'r adroddiad hwn yn gwneud nifer o argymhellion i'r diben hwn, gan dynnu ar ystod o ddata ac amrywiaeth o farnau a fynegwyd gan fudd-ddeiliaid yn y gwasanaeth cynrychiolaeth masnach – staff a rheolwyr Cyngor Llyfrau Cymru a chyhoeddwr a llyfrwerthwyr yng Nghymru. Rydym yn hynod ddiolchgar i'r cyhoeddwr a'r llyfrwerthwyr a gyfrannodd at yr ymchwil ac i reolwyr a staff Cyngor Llyfrau Cymru a'r Ganolfan Ddosbarthu hefyd sydd wedi bod yn ddi-ffael eu parodrwydd i roi gwybodaeth a neilltuo amser i esbonio a thrafod y materion perthnasol.

Gan fod llawer o'r adroddiad hwn o reidrwydd yn ymwneud â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu Cyngor Llyfrau Cymru mewn perthynas â'i wasanaeth cynrychiolaeth masnach, mae hi, efallai, yn werth pwysleisio yma bod yr adolygiad yn digwydd yng nghyd-destun hanes llwyddiant mawr dros gyfnod hir. Mae'r gwerthiant drwy'r Ganolfan Ddosbarthu wedi cynyddu, ar gyfartaledd, dros 6% y flwyddyn dros y 15 mlynedd diwethaf a thros 8% y flwyddyn yn y tair blynedd diwethaf. Yn 2004 cofnododd y Ganolfan Ddosbarthu ei blwyddyn orau erioed am werthiant, gyda thymor y Nadolig yn creu record. Er ei bod hi'n anodd gwneud cymariaethau uniongyrchol manwl-gywir, mae'r perfformiad hwn yn arwyddocaol well na'r hyn a geir ym masnach lyfrau'r DG yn ei chyfanrwydd dros yr un cyfnod. Bwriad yr adroddiad hwn yw cyfrannu at gynnal y cynnydd hwnnw mewn amgylchiadau cyfnewidiol ac at gyflwyno gwasanaeth cost-effeithiol a gwell i'r holl fudd-ddeiliaid: yn awduron a darllenwyr, cyhoeddwr a llyfrwerthwyr, yng Nghymru a'r tu hwnt.

David Kewley
Paul Richardson

Gorffennaf 2005

* Kilborn, Peter, *Canolfan Ddosbarthu Cyngor Llyfrau Cymru: Strategaeth ar gyfer y Blynnyddoedd Nesaf*, 2001
<http://www.cllc.org.uk/graphix/pdfs/PeterKilborn.pdf>

Cydnabyddiaeth

Wrth lunio'r adroddiad hwn cawsom fewnbwn helaeth gan Gyfarwyddwr, Penaethiaid Adrannau ac aelodau eraill o staff Cyngor Llyfrau Cymru. At hynny cawsom drafodaethau unigol a/neu grŵp gyda'r cyhoeddwyr a'r llyfrwerthwyr canlynol o Gymru:

Mary Buttle, Siop y Felin
Nicola Craddock, Honno
Richard Davies, Parthian
Alwyn Elis, Gwasg Gwynedd
Selwyn Evans, Siop y Siswrn
Mick Felton, Seren
Paul Gatehouse, Ottakars, Aberystwyth
Elena Gruffudd, Cwlwm Cyhoeddwyr Cymru
Garmon Gruffudd, Y Lolfa
Richard Houdmont, Gwasg Prifysgol Cymru
Geraint James, Awen Teifi
Dylan Philips, T-Hwnt
Mairwen Prys Jones, Gwasg Gomer
Phill Trenfield, WH Smith, Caerdydd
Luned Whelan, S4C/Hughes
Dylan Williams, Cymdeithas Lyfrau Ceredigion

Cawsom gyfarfodydd grŵp gyda:
Cwlwm Cyhoeddwyr Cymru
Literary Publishers Wales (LPW)
Cyflwynodd y ddau sefydliad bapurau byr ychwanegol hefyd.

Cafwyd atebion ysgrifenedig gan y canlynol:

Cyhoeddwyr

Accent Press
Columbia Publishing Wales
Cwmni Cyhoeddi Gwynn
Cyhoeddiadau Barddas
Dref Wen
Glyndŵr Publishing
Gwasg Carreg Gwalch
Gwasg Gomer
Gwasg Prifysgol Cymru
Honno Gwasg Menywod Cymru
Hughes
Planet
+ un ateb dienw

Llyfrwerthwyr

Awen Menai
Bangor Christian Bookshop
Brecon Beacons Information Centres
Canolfan Rhiannon
Case of Harlech
Castle Hill Books
The Chepstow Bookshop
College Street Books
Courtyard Books
Cover-to-Cover Bookshop
Cwprdd Cornel
Dolphin Books
Galloway Ltd
Inc
Llun a Gair
Llyfrau'r Ddraig
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Nickleby's Bookstore
Ottakars, Aberystwyth
Ottakars, Caerfyrddin
Palas Print, Caernarfon
The Pembroke Bookshop
Pethe Powys
Siop Clwyd
Siop y Felin
Siop y Ganolfan
Siop y Siswrn
Siop yr Hen Bost
T-Hwnt
TSO Wales
Wales Direct
+ 4 ateb dienw

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	9
1 Cyflwyniad	13
2 Methodoleg Ymchwil ac Adolygiad o'r Canlyniadau	21
3 Prif Ddarganfyddiadau: Pynciau ac Argymhellion	27
Atodiadau	
I Cytundebau	40
II Llwybrau Critigol Cyhoeddi	52
III Dadansoddiad o Ymatebion Cyhoeddwr a Llyfrwerthwr	59
IV Holiaduron	64

Crynodeb Gweithredol

Crynodeb o brif ddyfarniadau ac argymhellion yr adroddiad hwn yw'r pwyntiau canlynol:

- 1 Mae Cyngor Llyfrau Cymru (CLIC) yn sefydliad unigryw sy'n cyfuno swyddogaeth a gyllidir yn gyhoeddus i gefnogi pob agwedd ar gyhoeddi a gwerthu llyfrau yng Nghymru (o'r awdur drwodd i'r darlennydd) â wasanaeth dosbarthu masnachol-ei-sail.
- 2 Mae gan y Cyngor yr orchwyl gymhleth o gydbwyso ei agendâu diwylliannol a masnachol, gan wasanaethu lles cyhoeddwr a llyfrwerthwr fel ei gilydd a darparu cefnogaeth i anghenion gwahaniaethol llyfrau Cymraeg a llyfrau Saesneg o Gymru.
- 3 Yn y blynyddoedd diweddaraf gwelwyd cynnydd cyson ym musnes gweithgareddau dosbarthu a gwerthu CLIC ac mae darganfyddiadau'r adroddiad hwn yn cadarnhau barn adroddiad blaenorol bod y Ganolfan Ddosbarthu yn gweithredu'n effeithlon; hebdi byddai cyhoeddi a gwerthu llyfrau yng Nghymru (ac felly ysgrifennu a darllen llyfrau o Gymru yn y ddwy iaith) dan anfantais. Er hynny, mae newidadau ym masnach llyfrau'n gyffredinol ac yng nghylch gorchwyl CLIC yn ei gwneud hi'n amserol i gael adolygiad o'i wasanaeth cynrychiolaeth masnach.
- 4 Seiliwyd yr adroddiad hwn ar brofiad eang yr ymgynghorwyr o'r fasnach lyfrau, dyfnder o ddogfennaeth ystadegol ac arall a ddarparwyd gan CLIC, cyfweiliadau gyda rheolwyr a staff CLIC, a holiaduron cynhwysfawr a thrafodaethau helaeth gyda chyhoeddwr a llyfrwerthwr yng Nghymru.
- 5 Ein casgliadau yw bod cynnydd potensial sylweddol i lyfrau o Gymru yn y ddwy iaith dan yr amgylchiadau iawn a chyda chyllid addas ac arweiniad proffesiynol. Ond i gael y farchnad fwyaf posibl a darparu'r gwerth gorau am arian mae angen i CLIC gyflwyno rhai newidiadau.
- 6 Mae angen rheoleiddio perthynas CLIC â'r cyhoeddwr. Awgrymwn y dylai fod tair lefel o wasanaeth, o gyfanwerthu syml drwodd i gytundeb dosbarthu anghynhwysol (ecsqliwsif). Byddai gofyn i gyhoeddwr gydymffurfio ag arferion masnach proffesiynol a byddai llif gwybodaeth llawer gwell i fyny ac i lawr y gadwyn gyflenwi. Byddai hefyd dair lefel o ostyngiadau ar gyfer llyfrau a gyflenwir i CLIC.
- 7 Dylai rheolwyr gwerthu a marchnata CLIC feithrin cysylltiad mwy rhagweithredol a strategol gyda'r cyhoeddwr a'r llyfrwerthwr.

- 8 Dylid ad-drefnu adran Gwerthu a Marchnata CLIC dan swydd newydd Pennaeth Gwerthu a Marchnata, gyda chefnogaeth Rheolwr Gwerthu a Rheolwr Marchnata.
- 9 Ni ddylid parhau â swyddogaeth arbennig y swyddog gwerthiant mewn partneriaeth â *Literary Publishers Wales* a dylid adolygu tiriogaethau, cyfraddau galw a thargedau'r cynrychiolwyr masnach. Dylid cadw swyddogaeth y marsiandïwr ar gyfer rhai o allanfeydd y fasnach dorfol am y dyfodol agos.
- 10 Dylid gosod mwy o dargedau a blaenoriaethau ar gyfer gwaith y cynrychiolwyr masnach; drwy gynllunio ymlaen a chyda chytundeb y rheolwyr gwerthu dylid rhoi'r grym i'r tîm gwerthu daro bargeinion arbennig gyda llyfrwerthwyr; dylent gael rhagor o hyfforddiant a hyfforddiant rheolaidd mewn technegau gwerthu arbenigol.
- 11 Dylai pecynnau talu, cefnogaeth gwybodaeth ac offer technegol cynrychiolwyr gael eu harolygu'n gyson yn unol â safonau da mewn diwydiant.
- 12 Dylid parhau â'r system Archeb Sefydlog ond ei gweithredu mewn ffordd fwy dewisol i ddiwallu anghenion arbennig cwsmeriaid.
- 13 Dylid adolygu'r system dychweliadau yn fanwl hefyd a'i rheoli fesul cyfrif; dylai llyfrwerthwyr dalu am gost dychwelyd llyfrau. Y cyhoeddwyr ddylai dderbyn cyfrifoldeb yn y pen draw am bob dychweliad o siopau llyfrau.
- 14 Dylai rheolwyr gwerthu a dosbarthu hefyd annog cryfhau isadeiledd llyfrwerthu drwy gynnig cymhellion ariannol i lyfrwerthwyr bychain i adeiladu eu daliadau stoc ac ymrwymo i gadw'r stoc am gyfnodau hwy.
- 15 Dylai CLIC weithio i ddatblygu ei waith allanol y tu hwnt i farchnad Cymru, yn enwedig i gyfanwerthwyr y DG.
- 16 Dylid gwneud buddsoddiad pellach yn natblygu TG ac yn enwedig yn y wefan a'r defnydd o e-fasnach.
- 17 Dylai gwelliannau yn y gweithgareddau gwerthu a marchnata fynd law yn llaw ag anogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol i gyhoeddwyr Cymru yn y ddwy iaith i wella cynnwys, diwyg a marchnata eu llyfrau. Mae gwasanaeth cynrychiolaeth masnach llwyddiannus yn dibynnu yn y pen draw ar ansawdd y rhestrau sydd ganddo. Mae angen i CLIC barhau a helaethu ei ymdrechion i weithio gyda chyhoeddwyr Cymru i wella safonau ac apêl fasnachol eu cyhoeddiadau yn y ddwy iaith. Mae'n amlwg bod i hynny oblygiadau cyllido sydd y tu hwnt i gylch gorchwyl yr adroddiad hwn.

18 Yn amgylchedd cynyddol gystadleuol manwerthu llyfrau mae'n hanfodol bod pawb yn y gadwyn gyflenwi yn glynu at ddisgyblaethau ac arferion gweithredu cydnabyddedig cyhoeddi a dosbarthu. Dylai CLIC fod yn arweinydd yn y gwaith o sefydlu proffesiynoldeb o'r fath ledled y fasnach lyfrau yng Nghymru.

1 Cyflwyniad

Ni fydd yr adroddiad hwn yn disgrifio strwythur na gweithrediad gwasanaeth cynrychiolaeth masnach Cyngor Llyfrau Cymru yn fanwl. Er hynny, mae nifer o nodweddion i Gyngor Llyfrau Cymru yn ei gyfanrwydd ac i weithrediad y Ganolfan Ddosbarthu (GDd) a'r gwasanaeth cynrychiolaeth masnach yn benodol y mae angen tynnu sylw atynt am eu bod wedi dylanwadu mor gryf ar ein casgliadau a'n hargymhellion yn yr adroddiad hwn.

Cyngor Llyfrau Cymru

Mae Cyngor Llyfrau Cymru (CLIC) yn sefydliad unigryw yn ein profiad ni. Ceir cyrff sy'n bodoli i wella perfformiad cyhoeddwr a llyfrwerthwyr annibynnol yn yr Alban, Iwerddon a marchnadoedd rhanbarthol ac ieithoedd bychain eraill yn Ewrop*, ond ni wyddom am yr un sydd mor gynhwysfawr, yn cynnig, fel y gwna CLIC, ystod o wasanaethau i'r fasnach (yn cynnwys golygu, dylunio, marchnata a gwerthu, dosbarthu a chefnogi llyfrwerthwyr) a hefyd yn dyfarnu grantiau ar gyfer cyhoeddi yn Gymraeg ac (oddi ar 2003) yn Saesneg. Mae CLIC hefyd yn sefydliad hybrid o ran hunaniaeth gorfforaethol. Yn ei swyddogaethau craidd, corff sy'n cael ei gyllido'n gyhoeddus yw CLIC, tra bod ei Ganolfan Ddosbarthu (GDd) yn anelu at fod yn fenter fasnachol hunan-gynhaliol. O ystyried ystod a chymhlethdod ei weithgareddau, nid yw'n syndod bod tensiynau neu groesgerhyntau yn niffiniad ei nodau a'i amcanion ac yn ei weithredu beunyddiol, a'r rheiny'n cael effaith uniongyrchol ar y gwasanaeth cynrychiolaeth masnach.

Y Gwasanaeth Cynrychiolaeth Masnach

Yn y DG yn gyfan mae cynrychiolaeth masnach wedi newid yn arwyddocaol iawn yn y blynyddoedd diwethaf. Gyrrwyd y newid hwn yn benodol gan y gyfran gynyddol o'r farchnad sydd wedi'i chymryd gan gadwyni llyfrwerthu ac uwchfarchnadoedd mawr sy'n gweithredu'n bennaf drwy brynu canolog gyda chefnogaeth gwasanaethau marsiandïaeth, a'r rhyngwyd a dulliau eraill o werthu uniongyrchol. Ar yr un pryd mae gwasanaethu cyfrifon bychain annibynnol wedi symud fwyfwy at gyfanwerthwyr. Y canlyniad yw gostyngiad arwyddocaol iawn yn nifer y cynrychiolwyr masnach a gyflogir gan y cyhoeddwr mawr, a hynny'n aml wedi'i gysylltu ag uwchraddio eu rôl i reolaeth gwerthiant rhanbarthol a defnydd mwy helaeth o ddulliau eraill o werthu llyfrau i mewn i'r fasnach lyfrau, gan gynnwys cyfathrebu electronig.

Mae cyhoeddwr ac asiantaethau gwerthu ar lefel y DG fel rheol yn gwasanaethu De Cymru o Dde-Orllewin Lloegr a Gogledd Cymru o Ogledd-

* Gweler Hampson, John a Richardson, Paul, *Kitchen Table to Laptop; Independent Publishing in England*, Cyngor Celfyddydau Lloegr, Llundain, 2005, Atodiadau A, C a D. Hefyd ar gael ar <http://www.artscouncil.org.uk>

Orllewin Lloegr. Esgeulusir y Gorllewin yn fynych ac ychydig o sylw a roir i'r allanfeydd annibynnol Cymraeg yn bennaf.

Mae trefniadaeth gwerthu CLIC yn wahanol iawn o reidwydd. Mae ei gynrychiolwyr masnach yn rhan o Adran Farchnata CLIC. Arweinir tîm o dri chynrychiolydd cyffredinol ac un Swyddog Gwerthiant gan Uwch Swyddog Gwerthiant, sy'n gyfrifol i'r Pennaeth Marchnata. Mae'r Swyddog Gwerthiant yn gyd-benodiad gyda Literary Publishers (Wales) Ltd (consortium o gyhoeddwyr llyfrau llenyddol Saesneg) er mwyn rhoi impetws arbennig i werthiant ysgrifennu Saesneg yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae'r swydd hon yn cwmpasu Cymru gyfan ac yn canolbwyntio ar lyfrwerthwyr sy'n ymwneud yn unig neu'n bennaf â gwerthu llyfrau Saesneg. Mae portffolio'r Swyddog Gwerthiant yn fwy cyfyng nag eiddo'r cynrychiolwyr eraill ac yn cynnwys ar y mwyaf 120 o deitlau newydd a 120 o deitlau ôl-restr. Teitlau a fyddai'n gymwys ar gyfer cymorth grant yw'r rhain yn bennaf, oherwydd eu gwerth llenyddol neu artistig. Tra bod y rhan fwyaf o'r teitlau yn dod o Literary Publishers Wales, mae lleiafrif yn dod o gyhoeddwyr Saesneg y tu allan i'r grŵp hwnnw.

Mae portffolio'r cynrychiolwyr cyffredinol yn ehangach, gyda thua 1000 o deitlau newydd y flwyddyn yn ogystal ag ôl-restr stoc y GDd, yn Gymraeg a Saesneg. Hyd yn ddiweddar roedd Cymru wedi'i rhannu'n dair rhanbarth gwerthu. Yn 2004 cyflwynwyd cynllun peilot lle roedd un o'r staff gwerthu'n canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau marsiandïo i allanfeydd y farchnad dorfol (canghennau dethol o WH Smith a Tesco ledled Cymru) tra bod y ddau gynrychiolydd arall yn cwmpasu tirogaethau mwy yn y Gogledd a'r De.

Cylch gorchwyl unigryw Cyngor Llyfrau Cymru a nodweddion arbennig masnach manwerthu llyfrau yng Nghymru sydd wrth wraidd y strwythur hwn. Archwilir y pynciau hyn yn yr adrannau canlynol.

Amcanion Masnachol a Diwylliannol

Ni ellir byth gymodi'n llwyr y ddeuoliaeth rhwng cenhadaeth ddiwylliannol CLIC i gefnogi ysgrifennu yn Gymraeg a Saesneg ac amcanion masnachol y GDd, ac nid oes angen am hynny. Yn hytrach rhaid taro cydbwysedd gweithio. Petai amcanion masnachol ar y blaen o ran pwysigrwydd, ychydig o sylw a roddid i lawer o'r 1000+ o deitlau a gludir gan y cynrychiolwyr masnach ar unrhyw adeg (a'r 12,000 sydd mewn stoc yn y Ganolfan Ddosbarthu) ac ni fyddai nifer o gyfrifon llyfrwerthwyr bach yn cael ymweliadau rheolaidd, er enghraifft. Fel y mae hi, mae'r rheolwyr gwerthu a'r cynrychiolwyr yn gosod blaenoriaethau masnachol, ond maent hefyd yn anelu at gynnig gwasanaeth cynhwysfawr i'r holl gyhoeddwyr a llyfrwerthwyr a wasanaethir ganddynt.

Cyhoeddwyr a Llyfrwerthwyr

Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau gwerthu masnachol eisiau meithrin a chynnal eu cwsmeriaid manwerthu, ond i'w cyflenwyr-gyhoeddwyr y mae eu teyrngarwch yn y pen draw. I CLIC mae'r cydbwysedd braidd yn wahanol – mae ganddo gyfrifoldeb mwy uniongyrchol dros gynnal manwerthu llyfrau mewn cymaint o gymunedau ag y mae'n bosibl; dyna pam y bu raid i'r Cyngor gymryd y fath ofal wrth ymdrin â phwnc cyflenwi uniongyrchol drwy wefan *gwales*.

Rhoi Grantiau a Darparu Gwasanaethau

Cymhlethir y berthynas rhwng CLIC a chyhoeddwyr Cymru, ac i raddau llai llyfrwerthwyr Cymru, gan y ffaith bod CLIC ar y naill law yn darparu cyllid, sy'n bwysig iawn, yn wir yn holl-bwysig, i'w bodolaeth ac ar y llaw arall mae'n darparu gwasanaethau gwerthu a dosbarthu. At hynny, does gan y cyhoeddwyr, ar y cyfan, ddim dewis arall yn hyn o beth. Nid oes yr un gwasanaeth gwerthu a dosbarthu cynhwysfawr arall yng Nghymru y gallent droi ato ac ni fyddai'r un dosbarthwr arall yn y DG yn barod i gynnig y math o wasanaeth a roir gan CLIC yng Nghymru. Daeth adroddiad Kilborn (gweler uchod) i'r casgliad bod y GDd yn 'cael ei rhedeg yn effeithlon a'i threfnu'n dda' a therfynodd drwy ddweud 'Heb y ganolfan ddosbarthu, y canlyniadau tebyg fyddai: llai o gyhoeddwyr a llai o gyhoeddiadau; llai o lyfrwerthwyr arbenigol; cyflenwad llai o lyfrau yn Gymraeg a llyfrau am Gymru a'i threftadaeth; a thanseilio cenhadaeth y Cyngor Llyfrau'. I'r graddau yr edrychodd yr ymchwil ar gyfer yr adolygiad hwn ar berfformiad y GDd, gwelodd dystiolaeth gref i gefnogi'r farn honno. At hynny, rhaid pwysleisio bod rhaid i'r GDd dalu ei ffordd ac mae ein hargymhellion mewn perthynas â gostyngiadau a pherthynas gytundebol newydd gyda chyhoeddwyr sy'n dymuno cael perthynas ddosbarthu yn hytrach na pherthynas gyfanwerthu gyda'r GDd, a defnydd llawn o'r gwasanaeth cynrychioli, yn ymwneud yn uniongyrchol â'r pwnc hwn.

Dosbarthu a Chyfanwerthu

Mae rhai budd-ddeiliaid, o leiaf, fel petaent yn gweld gwrthdaro budd rhwng gweithgareddau'r GDd fel dosbarthwr (ac felly darparwr gwasanaeth) a chyfanwerthwr (ac felly cwsmer). Nid ydym wedi'n hargyhoeddi bod honno'n broblem anorthrech os gweithredir yr argymhellion sydd yn yr adroddiad hwn. Byddai ein cynigion yn rhoi gwahanol lefelau o wasanaeth a thelerau masnach i'r cyhoeddwyr hynny a fyddai'n dod i gytundeb dosbarthu anghynhwysol (ecsgliwsif) gyda CLIC, y rhai a ddeuai i gytundeb am wasanaeth cyfyngedig a'r rhai a fyddai'n hapus i ymdrin â'r GDd fel chyfanwerthwr rhanbarthol.

Mae angen i gyhoeddwyr Cymru yn y ddwy iaith sylweddoli, os ydynt am fwynhau manteision llawn y GDd a'i gwasanaeth gwerthu, bod rhaid iddynt hefyd roi eu cefnogaeth llawn iddi drwy weithio i safonau gwasanaeth

proffesiynol derbyniol a pheidio â dewis a dethol y gwerthiannau hawdd yn uniongyrchol eu hunain a gadael rhannau llai proffidiol y busnes i'r GDd. Y dewis arall, o reidrwydd, yw masnachu ar ostyngiadau uwch – fel y byddai'n rhaid iddynt gydag unrhyw gyfanwerthwr arall.

Y Ddwy Iaith

Mae'n hanfodol gwahaniaethu rhwng y pynciau sy'n ymwneud â chyhoeddi a llyfrwerthu Cymraeg a Saesneg yng Nghymru, er mai un sefydliad dosbarthu sy'n gwasanaethu'r ddau. Er mai marchnad fechan sydd i gyhoeddiadau Cymraeg, y mae hi, i raddau, yn farchnad gaeth – nid oes unrhyw ffynonellau cyflenwi arwyddocaol eraill y tu allan i Gymru; ceir craidd o ddarllenwyr ymrwymedig a brwdfrydig sy'n rhoi sail i gynnydd pellach; a chyhoeddiadau Cymraeg yw busnes craidd nifer arwyddocaol o lyfrwerthwyr arbenigol bychain. Mae hefyd yn denu sylw'r cyfryngau yng Nghymru ac mae'n deg dweud bod polisïau CLIC dros nifer o flynyddoedd wedi arwain at welliant cyson yn ansawdd ac apêl llyfrau yn y sector hwn, yn enwedig rhai i blant, ac mae hyn bellach yn digwydd hefyd yn y sector oedolion. Yn sicr ceir nifer o gyfleoedd pwysig am dwf yn y sector hwn y byddwn yn cyfeirio atynt yn nes ymlaen. Mae gan y sector hwn o gyhoeddi sail gref yn y farchnad i adeiladu arni. Ar hyn o bryd gwerthiannau Cymraeg, y mae tuag 20% o boblogaeth Cymru yn gallu eu defnyddio, yw tua deuparth yr hyn sy'n mynd drwy'r GDd. Mae 50 cyfrif uchaf y GDd yn gyfrifol am 72% o gyfanswm ei gwerthiant ac o'r rhain mae'r 30 siop lyfrau arbenigol Gymraeg yn gyfrifol am dros 50% o gyfanswm y gwerthiant. Roeddent yn dangos twf mewn termau real ac yn y gyfran o'r farchnad yn 2004/2005 o'i gymharu â 2003/2004.

Gwahanol iawn yw sefyllfa'r farchnad ar gyfer ysgrifennu Saesneg yng Nghymru. Er bod 'diddordeb Cymreig' neu 'awdur lleol' yn rhoi gwerth ychwanegol iddo, nid oes yr un gwahanodiad cryf iddo ag i gyhoeddiadau Cymraeg. Mae ysgrifennu Saesneg yng Nghymru yn llawer mwy dibynnol ar werthiant drwy siopau a chadwyni cyffredinol, mwy eu maint, ac yn cystadlu â chynnyrch prif dai cyhoeddi'r DG – sy'n cynnwys gweithiau gan brif awduron Cymru a gyhoeddwyd gan dai cyhoeddi yn Lloegr a llyfrau o ddiddordeb Cymreig arbennig a gyhoeddwyd y tu allan i Gymru, megis teitlau chwaraeon Mainstream a gyhoeddir yn yr Alban, yn ogystal â'r gwerthwyr-gorau rhyngwladol.

A chymryd *genre* ffuglen a gyhoeddir yn Saesneg ledled y DG, cynhyrchir dros 90% o'r gwerthiant gan ddeg cyhoeddwr masnach mwyaf y DG, a 7% arall gan yr ugain nesaf. Nid oes yr un cyhoeddwr Saesneg o Gymru ar y rhestr hon a, hyd yn oed yng Nghymru, rhywbeth yn debyg yw patrwm gwerthu ffuglen Saesneg, heblaw am y gwerthwr-gorau neu'r enillydd-gwobr achlysurol a gyhoeddir yng Nghymru.

Mae hi hefyd yn werth nodi mai ffenomen gymharol ddiweddar yw cyhoeddi Saesneg yng Nghymru, heb hanes na graddfa cyhoeddi Saesneg yn yr Alban, er enghraifft. Diolch i gefnogaeth gadarnhaol Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae potensial i'r sector hwn wella ei ansawdd a'i gyfran o'r farchnad, ond mae'n dal i fod mewn sefyllfa fwy heriol o lawer yn gystadleuol na chyhoeddi Cymraeg. Tyfodd gwerthiant cyhoeddi Saesneg yng Nghymru drwy'r GDd yn 2004/2005 o gymharu â 2003/2004, ond ar 4% roedd y cynnydd yn is na'r cyfartaledd i'r gweithrediad yn gyfan. Mae'n amlwg bod cynnydd mawr wedi bod yn WH Smith yn 2004/2005 o gymharu â 2003/2004 (cynyddodd ei gyfran o werthiant y GDd o 4.9% i 6.1%), ond ni ddangosodd y cyfrifon eraill o blith 50 cyfrif uchaf y GDd oedd heb fod yn siopau llyfrau Cymraeg arbenigol unrhyw dyfiant real cyffredinol, er gwaethaf y gefnogaeth ychwanegol a roddwyd iddynt gan Swyddog Gwerthiant LPW.

Mae'r ffigurau hyn yn tanlinellu'r angen i adolygu gweithrediad y gwasanaeth cynrychiolaeth masnach, yn enwedig, ond nid yn unig, mewn perthynas â llyfrau Saesneg, a hefyd natur y cyhoeddiadau Saesneg o Gymru a gynigir i'r farchnad, er bod hynny y tu hwnt i'r adolygiad hwn. Ni fyddai'n fasnachol hyfyw i gynnal dwy system hollol wahanol o gynrychiolaeth masnach i'r cynnyrch a gyhoeddir yn y ddwy iaith ac ni fyddai'r fasnach lyfrau eisiau hynny, ond mae'n amlwg bod ganddynt anghenion a blaenoriaethau gwahanol iawn y mae'n rhaid i CLIC wneud lle iddynt.

Dimensiwn Cyllido

Bu'r llwyddiant o ran denu cyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru o dan sawl cyllideb wahanol yn agwedd gadarnhaol iawn ar gyhoeddi a gwerthu llyfrau Cymraeg a Saesneg yn y blynyddoedd diweddar. Chwaraeodd CLIC ran arweiniol o ran ceisio'r cyllid yn ogystal â'i ddsbarthu.

Mae cyllid o'r fath yn bwysig iawn, weithiau'n holl-bwysig, i iechyd cyhoeddi yng Nghymru. Ers rhai blynyddoedd bu'r cyllid i lyfrau Cymraeg yn cael ei weinyddu gan CLIC mewn ffyrdd sydd wedi arwain at welliant yn ansawdd y cyhoeddi ac ehangu apêl ystod y llyfrau a gyhoeddir. Yn y cyfnod pan oedd y cyllid ar gyfer cyhoeddi Saesneg yng Nghymru yn cael ei weinyddu gan Gyngor Celfyddydau Cymru, ar weithiau o werth llenyddol ac artistig roedd y ffocws, fel gyda Chyngor Celfyddydau Lloegr. Ond cyfyngedig oedd apêl boblogaidd y rheiny fel rheol ac mae'n amlwg, os yw'r GDd a'r gwasanaeth cynrychiolaeth masnach i adeiladu gwerthiant Saesneg, bod rhaid cael portffolio llewyrchus masnachol ei apêl ac y bydd angen rhagor o fuddsoddi yn y tymor byr i adeiladu ystod y cynnyrch a'i gael i allanfeydd manwerthu llyfrau y brif ffrwd.

Ar yr un pryd mae potensial i ddatblygu gwerthiant ehangach i lyfrau Cymraeg, yn enwedig yn y sector llyfrau plant ond hefyd mewn categorïau sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd ar gyfer marchnad oedolion gyda golwg ar gyrraedd cynulleidfaoedd newydd. Mae hynny'n golygu bod â strategaethau effeithiol i

gyflwyno'r cynnyrch i allanfeydd y farchnad dorfol, megis WH Smith a'r uwchfarchnadoedd, er mwyn cyrraedd prynwyr, megis rhieni nad ydynt eu hunain yn darllen Cymraeg ond sy'n awyddus i brynu llyfrau Cymraeg i'w plant, na fyddent yn mynd i siopau llyfrau Cymraeg arbenigol fel rheol.

I gyrraedd y marchnadoedd ehangach hyn i lyfrau yn y ddwy iaith mae oblygiadau o ran cyllid i faes cyhoeddi ac o ran neilltuo'n fasnachol anghyfartal yr adnoddau y bydd eu hangen o bosibl, ar y dechrau o leiaf, ar gyfer gwasanaethu'r sianeli dosbarthu yma.

Rhesymau dros Newid

Nodwyd eisoes bod gan wasanaeth gwerthu a dosbarthu CLIC drac record cryf o ran tyfiant a pherfformiad gwasanaeth ac rydym wedi ystyried rhai o'r materion sy'n rhoi i'r fasnach lyfrau yng Nghymru ei nodweddion penodol ei hun. Ar y pwynt hwn gall fod o fudd i grynhoi pam mae hi'n edrych yn debygol bod angen newidiadau yn y gwasanaeth cynrychiolaeth masnach – a pham ar yr adeg arbennig hon.

- Mae newidiadau o ran gweithredu a strwythur ym masnach lyfrau'r DG yn gyfan, er enghraifft mewn perthynas ag e-fasnach, yn newid y dirwedd fasnachol y mae CLIC yn gweithredu ynddi, yn enwedig mewn perthynas â'r cadwyni ac allanfeydd y farchnad dorfol.
- Mae trosglwyddo cyfrifoldeb dros ddyfarnu grantiau ar gyfer cyhoeddiadau Saesneg o Gymru (o Ebrill 2003) oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru i Gyngor Llyfrau Cymru, ar y naill law wedi rhoi cylch gorchwyl mwy uniongyrchol i'r Cyngor i gefnogi'r sector hwn yn ei gyfanrwydd ac, ar y llaw arall, wedi rhoi mwy o gyfle i ddylanwadu ar natur y cynnyrch a gyhoeddir.
- Yn ddibynnol ar gyllid, mae Cyngor Llyfrau Cymru am ehangu ystod ysgrifennu Saesneg yng Nghymru a chefnogi cyhoeddi llyfrau mwy poblogaidd, sydd â'r potensial i apelio at gynulleidfa ehangach yn ogystal â darparu cynnydd arwyddocaol i'r hyn sy'n mynd drwy'r GDd.
- Bydd y cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn dilyn cyhoeddi'r Adroddiad ar Ysgrifennu Saesneg yng Nghymru a gynhyrchwyd gan Bwyllgor Diwylliant y Cynulliad yn help i gyflawni'r weledigaeth hon. Er hyn, bydd angen i'r cyllido fod yn barhaus a bydd angen strategaethau gwerthu priodol i gefnogi'r cyhoeddi.
- Golyga hyn i gyd newidiadau yng nghynrychiolaeth masnach CLIC a'r gwasanaethau dosbarthu, a thrawsnewidiad yn arferion gweithio cyhoeddwy'r hefyd – sy'n esbonio pwysigrwydd y cytundebau a argymhellir yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

- Bydd hi'n hollol hanfodol i arferion masnachol gorau masnach lyfrau'r DG gael eu mabwysiadu yng Nghymru, gan gydnabod gofynion arbennig y farchnad yn y ddwy iaith a strwythur ac arferion arbennig y fasnach yng Nghymru.
- Bu llawer o bwyslais yr hyn a ddywedwyd uchod ar gyhoeddiadau Saesneg o Gymru. Nid yw hyn mewn unrhyw ffordd wedi'i olygu i anwybyddu potensial datblygu marchnad cyhoeddiadau Cymraeg, sydd hefyd wedi derbyn rhagor o gyllid ac sydd hefyd angen cefnogaeth briodol drwy wasanaeth gwerthu CLIC.
- Mae cylch gorchwyl ehangach Cyngor Llyfrau Cymru bellach yn cwmpasu datblygu'r fasnach lyfrau yn ei chyfanrwydd yng Nghymru. Mae hyn yn golygu darparu gwasanaeth sy'n diwallu anghenion cyhoeddwr a llyfrwerthwyr yn y ddwy iaith genedlaethol.

Ystyriwyd yr holl faterion gwaelodol hyn yn ein hargymhellion. Rydym hefyd wedi ystyried ymatebion defnyddwyr uniongyrchol y gwasanaeth – y cyhoeddwr a'r llyfrwerthwyr – i'n holiaduron a'r cwestiynau a roddwyd iddynt mewn trafodaethau wyneb-yn-wyneb a rhai nodweddion penodol eraill i'r farchnad lyfrau yng Nghymru.

2. Methodoleg Ymchwil ac Adolygiad o'r Canlyniadau

Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar ddata a dynnwyd o nifer o ffynonellau yn ystod Ebrill–Mehefin 2005:

- Dogfennaeth helaeth a ddarparwyd gan Gyngor Llyfrau Cymru
- Trafodaethau eang gyda rheolwyr a staff CLIC
- Cyfarfodydd gyda chyhoeddwyr Cymraeg a Saesneg yn unigol a thrafodaethau grwpiau bach gydag aelodau Literary Publishers Wales a Chwlwm Cyhoeddwyr Cymru
- Ymweliadau â siopau llyfrau a thrafodaethau gyda llyfrwerthwyr yng Nghaerdydd, Caerfyrddin, Aberystwyth a'r Wyddgrug
- Holiadur e-bost a anfonwyd at gyhoeddwyr yng Nghymru yn seiliedig ar restr cyflenwyr CLIC
- Holiadur post a anfonwyd at lyfrwerthwyr yng Nghymru o blith rhestr cwsmeriaid CLIC.

Ymatebion Llyfrwerthwyr

Ymatebodd 35 o lyfrwerthwyr allan o'r 115 yr anfonwyd atynt, erbyn y dyddiad cau ddiwedd Ebrill 2005. Ceir dadansoddiad manwl o'u hymatebion a'r Holiadur ei hun yn Atodiadau III a IV. Mae ymateb ar y lefel hon yn ystadegol arwyddocaol, yn enwedig o'i gyfuno â'r barnau a gasglwyd yn ein cyfweiliadau wyneb-yn-wyneb gyda llyfrwerthwyr unigol, a oedd yn cynnwys tri rheolwr o ganghennau o gadwyni mawr a phedwar perchennog siopau arbenigol Cymraeg. Roedd y siopau yn amrywio'n arwyddocaol o ran maint a chymysgedd eu busnes. Roedd wyth ohonynt yn eithaf mawr gyda throsiant blynyddol o dros £200,000 (ddim bob amser i gyd o lyfrau); tua £80,000 oedd cyfartaledd refeniw gwerthu'r lleill.

Mae cryn wahaniaeth rhwng ymatebion y llyfrwerthwyr o blith y manwerthwyr Cymraeg arbenigol, y gwerthwyr Saesneg annibynnol a changhennau'r cadwyni.

Siopau Cymraeg arbenigol

Manwerthwyr llai eu maint yw'r rhain yn bennaf, ond mae'r mwyaf ohonynt ymhlith cwsmeriaid mwyaf arwyddocaol y GDd. Yn gyffredinol mae gogwydd cryf ganddynt at wasanaeth dosbarthu a gwerthu CLIC. Llyfrau yw prif ran busnes rhai ohonynt, mae hynny'n llai gwir am eraill, ond p'un bynnag y GDd yw eu prif ffynhonnell cyflenwi llyfrau. Yn gyffredinol roeddent yn hapus iawn â'r gwasanaeth a ddarperir gan y Ganolfan a'r cynrychiolwyr. Roedd y rhan fwyaf yn cael galwadau bob 4 i 6 wythnos, a oedd yn foddhaol. Roeddent yn hapus i delewerthu ac e-byst ategu'r ymweliadau hynny ond nid i gymryd lle cyswllt wyneb-yn-wyneb gyda'r cynrychiolwyr. Roedd y rhan fwyaf hefyd yn defnyddio gwefan *gwales* a'r CD-Rom ar gyfer gwybodaeth a *gwales* mewn rhai achosion ar gyfer archebu. Roedd llawer

o'r allanfeydd hyn yn defnyddio'r system Archeb Sefydlog ac roedd yn wasanaeth pwysig iddynt, yn enwedig mewn perthynas â busnes ysgolion a llyfrgelloedd. Roedd y rhan fwyaf yn hapus â pholisi dychwelyd y Ganolfan Ddosbarthu ac yn canmol y gwasanaeth gwybodaeth a ddarperir gan y Ganolfan. Yn gyffredinol roeddent yn graddio'r gwasanaeth gwerthu a dosbarthu'n gadarnhaol iawn. Roedd llawer o'r siopau hyn hefyd yn stocio rhai llyfrau Saesneg a gyhoeddwyd yng Nghymru ond yn ei chael hi'n anos i werthu'r rheiny yn eu marchnad. Un feirniadaeth gyffredin gan y siopau hyn oedd bod gwerthwyr da gan gyhoeddwyd o Gymru yn rhy aml allan o stoc/brint ar adegau gwerthu holl-bwysig, megis marchnad y Nadolig.

Llyfrwerthwyr cyffredinol a chadwyni

Roedd y siopau hyn yn fwy o faint yn gyffredinol ond nid o ran cyfrifon gyda'r Ganolfan Ddosbarthu. Roeddent hefyd yn defnyddio cyhoeddwyd a chyfanwerthwyr yn Lloegr yn ffynonellau i raddau mwy. Roedd llyfrau Cymraeg lawer yn llai arwyddocaol iddynt, ac nid oedd cyhoeddiadau Saesneg o Gymru chwaith yn ddim ond rhan fach neu fach iawn o'u busnes. Roeddent yn llai tebygol o ddefnyddio'r system archeb sefydlog, heblaw gyda chynllun Llyfr Cymraeg y Mis. Roeddent yn defnyddio *gwailes* a'r CD-Rom a hefyd wedi cael profiadau cadarnhaol o wasanaeth gwybodaeth y Ganolfan Ddosbarthu. Roeddent yn debygol o fod yn fwy beirniadol o lefel yr wybodaeth roedd y cynrychiolwyr yn ei darparu, yn enwedig ynghylch dyddiadau cyhoeddi a phrisiau, ac yn cydnabod ei bod hi'n bosibl mai problem gyda'r cyhoeddwyd yn hytrach na chyda'r cynrychiolwyr oedd hynny. Roedd rhai o'r siopau mwy hefyd ymhlith y lleiafrif nad oeddent yn hapus â pholisi dychwelyd y Ganolfan Ddosbarthu. Gallai hynny fod am eu bod yn fwy tebygol o stocio nifer uchel a bod â chyfradd uwch i'w dychwelyd o blith rhai teitlau, ac am fod mwy o draul arnynt.

Roedd hefyd ymdeimlad ymhlith rhai o ganghennau'r cadwyni nad oedd y cynrychiolwyr na'r drefniadaeth werthu yn ei chyfanwydd mewn gwirionedd yn deall natur y farchnad dorfol, beth oedd gwerthwyr-gorau a pha gefnogaeth o ran gwybodaeth a hyrwyddo roedd ei hangen i greu un. Nifer fach o blith y siopau mwyaf yma oedd y lleiaf bodlon â'r gwasanaeth cynrychiolaeth masnach – yn ei gymharu'n anffafriol mae'n debyg â'r gwasanaeth gan gyhoeddwyd a chyfanwerthwyr mawr o Loegr. Gellir cyfrif am hyn yn rhannol gan y newidiadau mynych braidd yn y cynrychiolwyr mewn rhannau o'r De yn y blynyddoedd diwethaf.

Asesiad cyffredinol ac awgrymiadau am wella

O gymryd yr holl ymatebyddion gyda'i gilydd, cafwyd asesiad cyffredinol gadarnhaol o'r gwasanaeth:

- Gwych 9
- Da 14
- Boddhaol 6
- Gwael 4
- Anfoddhaol iawn 4

Dim ond lleiafrif o ymatebyddion oedd ag awgrymiadau ar gyfer gwella. Roedd yr awgrymiadau a wnaed gan fwy nag un ymatebydd yn cynnwys:

- Rhagor o hyfforddiant gwerthu i gynrychiolwyr
- Gwell cynllunio teithiau i osgoi dyblygu ymweliadau
- Gwell blaen-wybodaeth ynghylch dyddiadau cyhoeddi ac ati
- Mwy o hyblygrwydd i'r cynrychiolwyr wneud deliau arbennig

Ymatebion Cyhoeddwr

Dim ond 13 o'r 55 cyhoeddwr yr anfonwyd atynt a atebodd, ond cawsom hefyd drafodaethau gyda chynrychiolwyr Cwllwm Cyhoeddwr Cymru a Literary Publishers Wales yn ogystal â siarad yn unigol â phedwar cyhoeddwr Cymraeg a Saesneg arall.

Fel gyda'r llyfrwerthwyr, gwelwyd gwahaniaeth sylweddol mewn graddfa rhwng y mwyaf a'r lleiaf o'r ymatebyddion – o refeniw gwerthu o £11,000 y flwyddyn i o gwmpas £900,000. Roedd tua hanner y cyhoeddwr a ymatebodd yn cyhoeddi'n gyfan gwbl yn Saesneg a chwarter yn gyfan gwbl yn Gymraeg. Roedd y ddau fwyaf yn cyhoeddi yn y ddwy iaith. Dim ond llyfrau i oedolion roedd nifer o'r cyhoeddwr Saesneg yn eu cyhoeddi, tra bod y rhai a oedd yn cyhoeddi yn y ddwy iaith yn dweud bod llyfrau Cymraeg i blant yn rhan bwysig iawn o'u cymysgedd.

Nid yw'n syndod mai yng Nghymru y mae bron holl werthiant y cyhoeddwr Cymraeg, a'r rhan fwyaf drwy Ganolfan Ddosbarthu CLIC, tra bod cyhoeddwr Saesneg neu yn y ddwy iaith yn fwy tebygol o dynnu rhan sylweddol o'u refeniw gwerthu o'r tu allan i Gymru a thrwy sianeli heblaw'r GDd yng Nghymru. Ar wahân i grantiau, llyfrau oedd yn cynhyrchu holl incwm, neu bron i holl incwm, yr ymatebyddion, ac eithrio'r rhai oedd hefyd yn ymwneud ag argraffu.

Yn gyffredinol roedd cyhoeddwr Cymraeg yn fwy cadarnhaol ynghylch y gwasanaeth cynrychioli na'r rhai Saesneg (o leiaf yn yr ymatebion ysgrifenedig), ond roedd gan y ddau grŵp ystod o amheuan.

Roedd nifer yn anhapus â'r berthynas gymysg rhyngddynt a CLIC – yn gorff cyhoeddus yn sianelu cyllid i'r diwydiant, yn ddosbarthwr masnachol ei sail, yn gyfanwerthwr ac yn y blaen.

Roedd teimlad cyffredinol mai cynrychiolaeth gynhwysfawr a ddarperir gan y gwasanaeth yn hytrach na gwerthu yn ôl blaenoriaethau a bod angen rhagor o hyfforddiant gwerthu ar y cynrychiolwyr. Roedd nifer o ymatebyddion yn teimlo eu bod yn rhesymol am werthu teitlau newydd ond yn wannach o ran gwirio'r ôl-restr. Roedd anfodlonrwydd cyffredinol â lefel yr adborth o ran gwybodaeth gyffredinol am y farchnad ac ynghylch teitlau penodol. Roedd pryder ynghylch sut roedd blaenoriaethau a thargedau'n cael eu gosod i'r cynrychiolwyr.

Roedd y cyhoeddwyr Cymraeg yn gyffredinol o blaid y system Archeb Sefydlog, tra bod y cyhoeddwyr Saesneg yn ystyried mai offeryn di-fin ydoedd ar gyfer cael y lefel iawn o stocio mewn gwahanol fathau o allanfeydd. Roedd rhai cyhoeddwyr yn y ddwy iaith eisiau gweld y GDd yn datblygu gwerthiant y tu allan i Gymru.

Roedd y cyhoeddwyr i gyd bron eisiau gweld rhagor o hyblygrwydd mewn telerau fel y gallai deliau arbennig gael eu taro ar deitlau unigol gyda llyfrwerthwyr unigol ac roeddent yn fodlon rhoi rhagor o ostyngiad eu hunain at y diben hwnnw.

Roedd y cyhoeddwyr mwyaf yn barod i drafod cytundebau, a allai olygu masnachu anghynhwysol/ecsgliwsif (gyda rhai eithriadau) er mwyn cael gwell gwybodaeth am y farchnad a rhagor o fewnbwn i wasanaeth gwerthu mwy rhagweithredol. Roeddent hefyd yn cefnogi'r farn y dylai cyhoeddwyr yng Nghymru fabwysiadu rhagor o'r disgyblaethau cyhoeddi proffesiynol – er enghraifft y llwybr critigol i gyhoeddiadau newydd.

Roedd rhai o'r cyhoeddwyr Saesneg yn gweld tuedd o blaid y Gymraeg yn y drefniadaeth werthu – neu'n teimlo ei bod wedi'i gosod yn ei lle'n well i ymdrin â'r rhan honno o'r fasnach, hyd yn oed ar ôl penodi Swyddog Gwerthiant penodol i lyfrau Saesneg.

Gwerthusiad cyffredinol

Yn yr ymatebion ysgrifenedig cafwyd un Gwych i'r gwasanaeth cynrychioli, dau Da ac roedd y lleill wedi'u gwasgaru rhwng Boddhaol a Gwael, a dau ar radd Anfodhaol lawn. Adlewyrchwyd yr un gwasgariad yn fras yn yr ymatebion wyneb-yn-wyneb.

Gwerthusiad o'r Ymatebion

Rhaid edrych ar yr atebion o ddwy ochr y diwydiant o ran cyfran ac o ran cyd-destun. Gall rhai o'r sylwadau negyddol fod yn ddilys ac archwilir y rhesymau dros hynny'n fanylach isod. Gall eraill ddeillio o ddisgwyliadau afrealistig, camddealltwriaethau a diffyg gwybodaeth hefyd. Yn olaf, fel y sylwodd un cyhoeddwr, 'mae cyhoeddwyr yn wastad yn beio'r cynrychiolwyr am werthiant siomedig'.

Cyd-destun

Ni ellir gorbwysleisio effaith natur arbennig iawn y farchnad lyfrau yng Nghymru. Mae'r llyfrwerthwyr annibynnol yn dal o bwys anferth i'r llyfrau Cymraeg sy'n ddeuparth trosiant y GDd, a hynny'n hollol wahanol i'r sefyllfa yng ngweddill y Deyrnas Gyfunol.

Ar y llaw arall, rhan fechan o fusnes yr annibynwyr Cymraeg a'r fasnach lyfrau'n gyffredinol (ac yn enwedig y cadwyni) yw cyhoeddiadau Saesneg o Gymru.

Y GDd yw un o ddeg prif ffynhonnell gyflenwi'r fasnach lyfrau yng Nghymru, ond dim ond oherwydd mai hi sy'n arwain y farchnad fel ffynhonnell lyfrau Cymraeg. Ar hyn o bryd chwaraewr gweddol fach yw hi yn y farchnad Saesneg yng Nghymru o'i chymharu â phrif gyhoeddwr a chyfanwerthwyr Lloegr. Mae'n bwysig iawn cydnabod y realiti cyfredol hwn gan dderbyn ar yr un pryd bod cyfle sylweddol am dwf mewn cyhoeddiadau yn y ddwy iaith yng Nghymru a thu hwnt.

Heriau a phynciau

Yn ein barn ni mae angen i gyhoeddwr a llyfrwerthwyr Cymru a CLIC yn ei amryw swyddogaethau, o gyllido i werthu a dosbarthu, fynd i'r afael mewn ffordd integredig â'r heriau a'r pynciau y tynnodd yr ymchwil sylw atynt.

- **Cynnyrch:** yn y pen draw, ni all y drefniadaeth werthu orau werthu llyfrau nad oes fawr alw amdanynt neu sy'n cymharu'n wael â'r gystadleuaeth o ran ansawdd y cynnwys, diwyg a gwerth. Mae llawer o waith wedi'i wneud yn y blynyddoedd diwethaf i wella ansawdd llyfrau Cymraeg gyda chanlyniadau da. Mae angen rhagor o waith o hyd yn y sector hwnnw, ond mae'n rhaid mai'r her fwyaf yw codi apêl fasnachol cyhoeddiadau Saesneg sy'n wynebu cystadleuaeth lawer mwy pwerus am wariant dewisol gan y defnyddiwr.
- **Disgyblaethau Cyhoeddi:** mae'r farchnad manwerthu, ac yn enwedig y cyfanwerthwyr, cadwyni, trefniadaethau gwerthu uniongyrchol ac archfarchnadoedd sydd wedi'u canoli yn y DG, yn gweithredu ar sail systemau a chyfathrebu effeithiol: llwybr critigol o flaen-wybodaeth, cofnodion llyfryddol, cloriau ymlaen llaw, dyddiadau cyhoeddi cadarn ac ati. Oni bai bod y systemau hyn yn cael eu dilyn, yna ni fydd y llyfrau newydd gorau un yn gwerthu i'w llawn botensial. Ac oni bai bod y stocrestr yn cael ei rheoli'n iawn bydd naill ai or-stocio neu golli gwerthiant am fod teitlau wedi mynd allan o stoc. Rhaid cadw at ddyddiadau delifro ar adegau holl-bwysig megis cyn y Nadolig. Mae goblygiadau mawr i gyhoeddwr yn y cyswllt hwn.

- **Marchnata a Hyrwyddo:** mae perygl, yn enwedig mewn busnesau llai o faint, na fydd gan gyhoeddwr yr amser, y medrau na'r arian i roi cefnogaeth farchnata ddigonol ac effeithiol i'w llyfrau. Mae CLIC bellach mewn sefyllfa i ddarparu rhagor o gefnogaeth yn y maes hwn, ond rhaid i'r prif gyfrifoldeb aros gyda'r cyhoeddwr eu hunain.
- **Gwerthu:** mae'n ymddangos, o ystyried nifer y teitlau a gynrychiolir, nifer y cyfrifon yr ymwelir â hwy a pha mor aml, ei bod hi'n anodd iawn i'r cynrychiolwyr ddatblygu strategaethau gwerthu mwy rhagweithredol nac i roi amser i werthu o'r ôl-restr. Ymdrinir â'r rhain a phynciau cysylltiedig yn fanylach isod.
- **Llyfrwerthu:** er bod siopau llyfrau rhagorol a llyfrwerthwyr ymroddedig yng Nghymru, mae'r sector yn ei gyfanrwydd yn eithaf gwan yn strwythurol, gyda gormod o fusnesau bychain yn cael eu cyfyngu gan ddiffyg gofod a chyfalaf gweithio, a lefel gymharol isel o fuddsoddiad mewn TG a datblygu e-fasnach. Yma hefyd mae CLIC bellach mewn sefyllfa i ddarparu rhagor o gefnogaeth mewn partneriaeth â'r fasnach lyfrau.
- **Partneriaeth:** mae'r dystiolaeth i gyd yn awgrymu'r angen i CLIC barhau a helaethu ei waith yn datblygu'r bartneriaeth rhwng yr holl fudd-ddeiliaid yn y diwydiant; bydd hyn yn gofyn am i gydberthnasau gael eu rheoleiddio drwy drefniadau cytundebol priodol a llif gwybodaeth lawer gwell rhwng yr holl bartïon.

Mae rhai o'r pynciau hyn yn mynd y tu hwnt i gylch gorchwyl yr adroddiad hwn ac mae rhai yn ddibynnol ar gyllid parhaus a chynyddol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, o leiaf yn y tymor byr i ganolig. Mae'r adrannau canlynol yn canolbwyntio'n benodol ar weithrediad y gwasanaeth cynrychiolaeth masnach a phynciau perthnasol o ran perthynas cyhoeddwr a llyfrwerthwyr â CLIC.

3. Prif Ddarganfyddiadau: Pynciau ac Argymhellion

1. Y Pynciau

Bu proses ein hymchwil yn fodd i ddod â nifer sylweddol ac ystod eang o bynciau i'r amlwg i'w hadolygu, ledled spectrwm llawn budd-ddeiliaid yn CLIC, ei wasanaeth Cynrychiolaeth Masnach, a'i Ganolfan Ddosbarthu. Cododd llawer o ymatebyddion bynciau tebyg ond wedi'u mynegi mewn ffordd ychydig yn wahanol. Gwelir ystod lawn y pynciau a godwyd isod, a thrafodir pob un y teimlwn ni bod angen sylw arno mewn un neu ragor o'r Argymhellion sy'n dilyn. Mater i'r busnes cyhoeddi llyfrau yng Nghymru yn ei gyfanrwydd yw datrys pob un o'r pynciau hyn yn foddhaol – mae gan bob rhan ohono, o'r awdur drwy holl wahanol swyddogaethau'r broses olygu, i werthu, dosbarthu, a hyd yn oed y defnyddiwr unigol neu sefydliadol, ran i'w chwarae i ddod â mwy o broffesiynoldeb ac ymwybyddiaeth o'r farchnad i broses cyhoeddi a dosbarthu yng Nghymru – p'un ai yn Gymraeg neu yn Saesneg.

1.1 Pynciau'n ymwneud â chynrychioli

- Maint tiriogaethau
- Nifer a chwmpasiad y cynrychiolwyr
- Amllder a dyblygu galwadau cynrychiolwyr
- Maint y rhestrau a gyflwynir
- Strwythur rheolaeth
- Gosod targedau yn ôl teitlau a chwsmeriaid
- Profiad a hyfforddiant y drefniadaeth werthu
- Amser gwerthu/cynrychioli i bob cyfrif
- Diffyg gwerthu a hyrwyddo ôl-restr
- Rhannu yn swyddogaethau cynrychioli a marsiandïo
- Ffonau symudol, cyfarpar TG, deunyddiau gwerthu
- Cydnabyddiaeth ariannol

1.2 Pynciau swyddogaeth/awdurdod

- Mae'r cynrychiolwyr yn cyflwyno ond a oes ganddynt yr amser a'r medrau i werthu mewn gwirionedd?
- Nid oes gan y cynrychiolwyr y grym i wneud "deliau" gwerthu
- Gall y cynrychiolwyr fod dan anfantais am fod cyhoeddwr yn gwerthu cynnyrch yn rhatach yn uniongyrchol, a thrwy gyfanwerthwyr yng Nghymru a Lloegr.
- Mae diffyg cydberthynas gytundebol rhwng y cyhoeddwr-gwsmeriaid a CLIC fel darparwr gwasanaeth. Ceir hefyd ddiffyg perthynas reoledig â chyhoeddwr, ac i ryw raddau, â llyfrwerthwyr ar lefel strategol.

1.3 Pynciau proses/system

- Anallu ymddangosiadol cyfredol i gyflenwi'r un teitl ar ostyngiadau gwahanol i wahanol gwsmeriaid
- Lefel dychwelyd a'r polisi dychwelyd, yn enwedig ar gyfer siopau mwy
- Gor-gyhoeddi yn yr Hydref (ar gyfer marchnad y Nadolig)
- Diffyg System Archebu Electronig (EDI) (yn hanfodol ar gyfer Waterstones ac yn mynd felly i Ottakars)
- Diffyg rhaglen "llwybr critigol" gwerthu a marchnata i'r cyhoeddwy ei dilyn (mewn gwirionedd gall fod angen dau lwybr critigol i lyfrau Cymraeg a Saesneg)
- Gwerth y system Archeb Sefydlog

1.4 Pynciau gwybodaeth

- Annigonolrwydd darpariaeth, amseroldeb a chyflwyniad gwybodaeth gwerthu (dyddiadau cyhoeddi, Blaen-Wybodaeth, deunyddiau gwerthu, gwybodaeth lyfryddol)
- Annigonolrwydd gwybodaeth am gyflenwad stoc (i gynrychiolwyr a thrwy wefan *gwales.com*)
- Diffyg adborthi data'r farchnad gan y cynrychiolwyr (yn gyffredinol, ac yn deitl- a chwsmer-benodol)
- Diffyg data gwerthiant i gyhoeddwy

1.5 Pynciau hyfforddiant a phrofiad gwerthu

- Diffyg gwerthu ôl-restr (tra'n cydnabod bywyd byr rhai rhannau o'r rhestr a gofod cyfyng rhai siopau)
- Gwendid yn ymwneud y cyhoeddwy â blaen-werthu i'r tîm gwerthu
- Diffyg rhai agweddau ar hyfforddiant gwerthu proffesiynol i'r cynrychiolwyr
- Diffyg medrau/hyfforddiant cyhoeddi proffesiynol i rai o'r cyhoeddwy

1.6 Pynciau rheoli

- Gwahaniad canfyddedig rhwng y gwaith gwerthu a dosbarthu a'r gwaith marchnata oherwydd y gwahanol leoliadau
- Diffyg gofal cwsmer i'r cyhoeddwy fel cwsmeriaid gwasanaeth cynrychiolaeth CLIC
- Gwendid mewn agweddau ar arweinyddiaeth gwerthu a marchnata a ffocws rheoli
- Gwendid yng nghanfyddiad cyhoeddwy o bwysigrwydd eu rôl yn mewnbynnu i'r broses gwerthu a marchnata

1.7 Pynciau twf

- Nid yw CLIC wedi'i gymhwyso ar gyfer cyflenwi llyfrau i'r farchnad gyfanwerthu a manwerthu Saesneg
- Pwysau annigonol y tu ôl i farchnata cyhoeddiadau Saesneg o Gymru i'r farchnad boblogaidd
- Ansawdd y teitlau a gyhoeddir, yn enwedig teitlau Saesneg sy'n cael cymorth grant, o ran testun, cynnwys, diwyg a marchnata
- Anawsterau marchnata, marsiandïo, gwerthu a chyflenwi i allanfeydd llyfrau anhraddodiadol (e.e. Tesco, Canolfannau Gwybodaeth i Dwristiaid)
- Cyfyngiadau demograffiaidd yn y farchnad Gymraeg
- Rhai cyhoeddwr heb fod â digon o ffocws ar werthu hawliau, pwnc sydd y tu hwnt i'r adroddiad hwn

2. Yr Argymhellion

Mae'r argymhellion a nodir isod yn ffyrdd o fynd i'r afael â'r pynciau a godwyd yn ein hymchwil. Dylai eu gweithredu alluogi CLIC i ddatblygu ei wasanaethau cynrychiolaeth masnach er lles awduron, cyhoeddwr, llyfrwerthwyr, cwsmeriaid unigol a sefydliadol – yn awr ac yn y dyfodol – ond cydnabyddwn y bydd eu gweithredu'n rhoi pwysau ar ddiwydiant llyfrau Cymru benbaladr a all fod yn anodd eu cyflawni, o leiaf yn y tymor byr. Tynnwyd y cynigion o'n profiad ni'n hunain o reoli gwerthu, marchnata a chyhoeddi ym myd masnachol cyhoeddi yn y DG ac yn rhyngwladol. Cydnabyddwn hefyd fod pynciau penodol ynghylch hunaniaeth ddiwylliannol genedlaethol, dwyieithrwydd a gwleidyddiaeth, y mae CLIC yn eu hwynebu wrth ddarparu ei wasanaethau a'i gefnogaeth i geisio cyflawni ei ddibenion sef :

- hybu diddordeb mewn llyfrau Cymraeg a llyfrau Saesneg o Gymru,
- hybu'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru yn ei holl agweddau a chydlyn buddiannau awduron, cyhoeddwr, llyfrwerthwyr a llyfrgelloedd
- cynorthwyo a chefnogi awduron.

Mae'n bosibl na fydd hi'n bosibl yn y cyd-destun hwn, i weithredu'r hyn a gynigiwn i gyd yn y tymor byr – ond rydym yn gwneud ein hargymhellion yn y gred bod y newidiadau hyn yn angenrheidiol i alluogi CLIC i gyflawni ei genhadaeth ac i'r diwydiant cyhoeddi a llyfrwerthu yng Nghymru ddod yn fwy effeithlon ac ymatebol i gwsmeriaid yn yr 21ain Ganrif.

2.1. Cydberthynas gwerthu a dosbarthu cytundebol rhwng CLIC a'r cyhoeddwr

Rhaid rhoi'r gydberthynas rhwng cyhoeddwr (sy'n defnyddio gwasanaeth Cynrychiolaeth Masnach CLIC a'r GDD) a CLIC ar dir cytundebol cadarn i sicrhau bod hawliau ac ymrwymadau'r cyhoeddwr fel cwsmer a CLIC fel darparwr

gwasanaeth wedi'u diffinio'n glir er lles i'r ddwy ochr – ac yn y pen draw i'r awduron, y llyfrwerthwyr a'u cwsmeriaid.

Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth cynrychiolaeth masnach yn gwerthu dros 1100 o deitlau newydd (ac mae'r nifer yn tyfu) a gyhoeddwyd yng Nghymru bob blwyddyn (tua 600 o deitlau Cymraeg a 500 Saesneg) i ystod gyflawn y siopau sy'n gwerthu llyfrau yng Nghymru. Mae'r GDd yn ceisio darparu gwasanaeth cynhwysfawr yn cadw a dosbarthu stoc i gyhoeddwyr Cymru (ac, yr un fath â chyfanwerthwr, mae hefyd yn prynu i mewn stoc o gyhoeddiadau o ddi-ddordeb i Gymru gan gyhoeddwyr mewn mannau eraill yn y DG). Am nad yw'r gydberthynas wedi'i rheoleiddio na'i diffinio'n glir mae'n agored i'w chamddefnyddio, ei chamddeall, ei chamddehongli, ac o ganlyniad, yn gallu arwain at anfodlonrwydd.

Fe gredwn ni, ar sail sylwi ar drefniadau cyfredol a thrafodaethau â chyhoeddwyr a llyfrwerthwyr, y dylai CLIC fod yn cynnig tair lefel o wasanaeth: Aur, Arian ac Efydd.

Gwasanaeth Efydd. Ni fyddai'r gwasanaeth hwn yn dibynnu ar gytundeb am ei fod yn dilyn model sefydledig o fasnachu a ddefnyddir ar gyfer dosbarthu pob math o gynnyrch o gwmpas y byd. Dylai fod yn wasanaeth cyfanwerthu uniongyrchol lle mae CLIC yn prynu stoc gan gyhoeddwr ar gyfer eu gwerthu ymlaen i fanwerthwyr ar delerau a osodir gan CLIC.

Y budd i'r cyhoeddwyr yw y byddai gwerthiant stoc, er yn ddibynnol ar amodau a telerau arferol masnach lyfrau y DG – gan gynnwys hawliau y cytunwyd arnynt i ddychwelyd:

- yn an-anghynhwysol – h.y. heb fod yn ecsgliwsif (gan adael y cyhoeddwr yn rhydd i werthu i gwsmeriaid eraill yn yr un farchnad)
- i bob pwrpas yn “gadarn” ac ar ostyngiad y cytunwyd arno (55% – neu'n uwch)
- yn darparu ar gyfer taliad llawn ar ôl tymor o gredyd a drafodwyd
- yn rhoi cyfrifoldeb llawn am reoli a chostau dychwelyd yn nwylo'r GDd.

Y budd i'r GDd fyddai:

- mai dim ond teitlau y credai y gallai eu gwerthu y byddai'n eu prynu ac mewn niferoedd priodol
- mai dim ond i'r cyfrifon hynny sydd â marchnad briodol yn ei barn hi, y byddai rhaid iddi gyflwyno a gwerthu'r teitlau
- y byddai'n berchen y stoc ac yn rhydd i'w werthu ar y telerau a fyddai fwyaf tebygol o gyflawni'r gwerthiant angenrheidiol
- y gallai ailarchebu mewn niferoedd a fyddai'n gweddu i'w phatrwm archebu a'i hanghenion.

Yn nodweddiadol (ond nid o anghenraid) defnyddid y model hwn ar gyfer prynu llyfrau a gyhoeddir y tu allan i Gymru ac mae fwy neu lai yr un fath â'r model a ddefnyddir yn y GDd ar hyn o bryd ar gyfer stoc a brynir gan gyhoeddwr yn Lloegr, yr Alban a mannau eraill.

Gwasanaeth Arian. Byddai'r gwasanaeth hwn, a fyddai, yr un fath â'r gwasanaeth Efydd, yn an-anghynhwysol (heb fod yn ecsgliwsif), yn ddibynnol ar gytundeb yn gosod hawliau ac ymrwymadau ar y ddwy ochr. Dim ond i gyhoeddwr yng Nghymru y byddai ar gael.

Y manteision ychwanegol i gyhoeddwr fyddai:

- bod CLIC yn cytuno i gynrychioli teitlau a gynhyrchir gan y cyhoeddwr i ystod lawn masnach lyfrau Cymru
- ei fod yn gytundeb an-anghynhwysol ac felly byddai'n caniatáu i gyhoeddwr werthu i gyfrifon eraill yng Nghymru eu hunain
- bod CLIC yn cytuno i ddarparu gwybodaeth gyffredinol ac adborth am y farchnad i'r cyhoeddwr ar ffurf adroddiad misol gan reolwyr gwerthiant
- bod stoc y cyhoeddwr yn cael ei gadw yn y GDd ar delerau transfer ac y telid amdano os a phan y'i gwerthid yr un fath ag o dan y system dransffer bresennol (gweler Aur isod)

Y manteision ychwanegol i CLIC fyddai:

- bod y cyhoeddwr yn cytuno i ddilyn rhaglen 'llwybr critigol' sylfaenol a phriodol i'r farchnad ar gyfer cyflenwi blaen-wybodaeth lyfryddol a dyddiadau cyhoeddi
- bod gan CLIC yr hawl i oedi gwerthu a dosbarthu teitlau a fyddai'n methu cyfarfod â gofynion rhaglen y llwybr critigol. Os nad yw hynny'n ymarferol dylid ei gwneud yn glir na fyddai teitlau o'r fath (h.y. sydd â blaen-wybodaeth neu wybodaeth marchnata annigonol neu'n ddiweddar yn cael eu delifro) yn cael blaenoriaeth gan y tîm gwerthu
- bod gan CLIC, drwy'r gwasanaeth cynrychiolaeth masnach a'r GDd, y rhyddid i drafod gostyngiadau ar gyfer hyrwyddiadau arbennig (gweler Aur isod)
- mai'r cyhoeddwr fyddai'n gyfrifol am gost ariannol stoc a ddychwelid ac a dderbynnid am gredyd
- bod y GDd yn prynu'r stoc gan gyhoeddwr ar ostyngiad uwch na than y trefniadau cyfredol (byddai angen trafod hyn, ond rhagwelwn y byddai angen gostyngiad o 50%).

Gwasanaeth Aur. Dyma'r gwasanaeth llawn safonol a gynigid gan CLIC drwy ei wasanaeth cynrychiolaeth masnach a'i GDd.

Byddai'r gwasanaeth yn cynnig y canlynol i gyhoeddwr Cymru dan y cytundeb:

- gwarantu stocio a storio lleiafswm cytunedig o bob teitl a gyhoeddir – ym mlwyddyn y cyhoeddi a gydol bywyd gweithredol y teitl
- system transffer, fel ar hyn o bryd, lle mae'r cyhoeddwr yn berchen y stoc yn y GDd ac yn cael ei dalu'n llawn amdano 30 diwrnod ar ôl diwedd y mis pryd cafodd ei werthu – heb gyfrifoldeb am gostau gwasanaethu a dosbarthu'r archeb, am gasglu arian neu ddyledion drwg, ac ar ostyngiad o ddim ond 45%. Mewn amgylchiadau penodol, lle mae'r cyhoeddwr a CLIC yn cytuno ar y cyd i gynnig gostyngiad ychwanegol i'r fasnach manwerthu fel rhan o hyrwyddiad, bydd y cyhoeddwr yn talu am hynny, er mwyn gwarchod y gorswm (margin) masnachu gofynnol i'r GDd
- gwasanaeth cynrychiolaeth masnach llawn i bob cyfrif llyfrwerthu yng Nghymru
- gwybodaeth ac adborth am y farchnad yn gyffredinol ac yn benodol am y teitlau a'r cwsmeriaid
- grymuso'r tîm gwerthu'n ychwanegol i'w galluogi i gytuno ar ddeliau arbennig o fewn canllawiau llym y cytunwyd arnynt rhwng y cyhoeddwr a'r rheolwr gwerthu
- estyn gwasanaeth dosbarthu CLIC i farchnad Lloegr a'r Alban y gwerthir iddynt neu a gyflenwir gan gyfanwerthwyr o Loegr
- rheolaeth ragweithredol ar gydbertynas cyhoeddwr/cyflenwr a hynny'n cynnwys gwasanaethau megis hyfforddiant ar lynu at raglen 'llwybr critigol' ac ar werthu a marchnata ar gyfer cyhoeddwr.

Am hyn byddai cyhoeddwr Cymru yn cytuno, fel ymrwymiad cytundebol:

- mai'r GDd, CLIC, fyddai eu hunig ddsbarthwr yng Nghymru – heblaw eithriadau y cytunwyd arnynt (megis troellwyr brand cyhoeddwr wedi'u lleoli a'u gwasanaethu/marsiandïo gan y cyhoeddwr eu hunain; byddai'r rhain fel rheol wedi'u cyfyngu i allanfeydd twristaidd a diwylliannol ac nid siopau llyfrau) – ac yn an-anghynhwysol y tu allan i Gymru.
- byddent yn cefnogi cynllun gwerthu a dosbarthu CLIC i farchnadoedd yr Alban a Lloegr drwy roi'r gostyngiad ychwanegol gofynnol i gyflenwi stoc i gyfanwerthwyr y DG.
- byddent yn ceisio glynu at raglen y llwybr critigol priodol i'r farchnad (h.y. wedi'i gwahaniaethu yn ôl gofynion marchnad Cymru a fyddai'n wahanol ar gyfer llyfrau a gyhoeddir yn Gymraeg a rhai Saesneg) a fabwysiadwyd gan CLIC ar gyfer cyflenwi blaen-wybodaeth lyfryddol ac am y teitl, proflenni'r clawr (y byddai CLIC yn gallu gwneud llungopiâu lliw ohonynt), dyddiadau cyhoeddi a gofynion "gwerthu i mewn" eraill yn cynnwys delifro stoc.
- byddent yn mynychu cynadleddau gwerthu ddwywaith y flwyddyn i gyflwyno'u rhestrau tymhorol.
- byddent yn derbyn bod methiant i ddelifro deunyddiau gwerthu a marchnata hanfodol yn brydlon (o fewn goddefiadau rhesymol) yn arwain at naill ai symud teitlau yn ôl i fis diweddarach yn rhaglen gyhoeddi CLIC

neu eu stocio a'u dosbarthu ond heb gefnogaeth werthu lawn gan y cynrychiolwyr.

Polisi Dychwelyd: dylai polisi dychwelyd CLIC fod fel a ganlyn:

Gall llyfrwerthwyr ddychwelyd, am gredyd i'w cyfrif ond ar eu cost eu hunain, nwyddau a gyflenwyd gan y GDd yn ddibynnol ar yr amodau canlynol:

bydd y llyfrau mewn cyflwr da – fel y bydd hi'n bosibl eu gwerthu am y pris gwerthu llawn
ni fydd y llyfrau'n cael eu dychwelyd cyn pen 3 mis nac yn ddiweddarach na 12 mis ar ôl eu delifro, yn ddibynnol ar unrhyw ddarpariaeth bellach yn IRI (Industry Returns Initiative) y Deyrnas Gyfunol.

Gostyngiadau: argymhellwn fod y lefel isaf o ostyngiad i'r siopau'n cael ei gosod fel a ganlyn:

25% ar gyfer teitlau addysgiadol, academiaidd neu arbenigol iawn eraill
33.3% ar gyfer teitlau cyhoeddi cyffredinol.

Dylid cynnig rhagor o ostyngiad i lyfrwerthwyr naill ai i gefnogi teitl penodol, thema hyrwyddo neu farchnata, neu fel cymhelliad i gynyddu gwerthiant. Er hynny, o ystyried natur gwasanaeth CLIC i gyhoeddwyr, ni ddylai gostyngiadau gwahaniaethol rhwng cyhoeddwyr a gynrychiolir ar draws ystod y teitlau a gynrychiolir fod yn rhan o'r gwasanaeth – heblaw i glirio stoc penodol neu fentrau tebyg.

2.2. Rheolaeth a Threfniadaeth y gwasanaeth Cynrychiolaeth Masnach

Rheolaeth

Er mwyn cyrraedd y potensial mwyaf ac ymateb i'r prif heriau a fydd yn wynebu'r fasnach lyfrau yn y blynyddoedd i ddod, argymhellwn greu swydd newydd Pennaeth Gwerthu a Marchnata. Dylid llenwi'r swydd hon, yn ddelfrydol, gan rywun sydd â phrofiad o werthu a marchnata yn y fasnach lyfrau ledled y DG; dylai fod yn gyfrifol am arweiniad strategol swyddogaethau Gwerthu a Marchnata CLIC. Dylai'r swydd fod yn gyfochrog â swydd Rheolwr y Ganolfan Dosbarthu – y ddau'n adrodd i Arwyn Roderick, Pennaeth Cyllid a Busnes.

Yn ychwanegol at reolaeth strategol yr adrannau gwerthu a marchnata a'u gweithgareddau, byddai'r swydd hon yn gyfrifol am ddatblygu rheolaeth strategol a rhyngweithiad cadarnhaol yn y berthynas â chyhoeddwyr-gwsmeriaid y gwasanaethau Aur ac Arian a ddarperir gan CLIC. Byddai hefyd yn cwmpasu hyfforddi cyhoeddwyr i ddiwallu anghenion gwerthu a marchnata'r gwasanaeth

cynrychiolaeth masnach (a'u glyniad wrtho) a rheolaeth strategol y gydberthynas rhwng CLIC a chwsmeriaid siopau llyfrau. Byddai hefyd yn cynnwys cyfrifoldeb am yrru'r cynnydd mewn llyfrau a gyhoeddir yng Nghymru (yn enwedig y rhai a ysgrifennwyd yn Saesneg) i farchnadoedd twf yng Nghymru (megis y prif gadwyni llyfrau, archfarchnadoedd ac allanfeydd yn canolbwyntio ar dwristiaid) a marchnadoedd Lloegr a'r Alban drwy gyfanwerthwyr Saesneg. Byddai'r swydd yn cael cefnogaeth Uwch Swyddog Gwerthiant/Rheolwr Gwerthu a Rheolwr Marchnata.

Cynrychiolaeth

Trwy adleoli staff cyfredol dylid ad-drefnu'r tîm cynrychiolwyr, sy'n adrodd i'r Uwch Swyddog Gwerthiant/Rheolwr Gwerthu, yn ôl i'w gyfluniad gwreiddiol a rhannu'r farchnad yng Nghymru yn dair tiriogaeth ddaearyddol mwy hylaw gyda phob un yn cwmpasu siopau llyfrau annibynnol, cadwyni sydd â nifer gyfyngedig o siopau yng Nghymru ac allanfeydd eraill nad ydynt yn rhan o fusnesau lluosog eu hallanfeydd sydd angen marsiandïaeth. Byddai'r cynrychiolwyr a fyddai'n cwmpasu'r tair tiriogaeth yn gyfrifol am werthu cyhoeddiadau Cymraeg a Saesneg gan gyhoeddwy'r yng Nghymru a fyddai â chytundeb â CLIC. Dylai'r trefniant hwn ganiatáu ar gyfer rheoli cyrifon a chyfraddau galw yn fwy effeithiol a galluogi'r cynrychiolwyr i roi sylw llawn, wedi'i flaenoriaethu, i flaen- ac ôl-restrau yn y ddwy iaith. Bydd hefyd yn rhoi portffolio cymysg o ran mathau o gwsmeriaid i'r cynrychiolwyr ac yn osgoi, neu o leiaf yn lleihau, dyblygu galwadau.

Yn y dyfodol agos bydd angen cyfaddawd, a fydd yn cydnabod sgiliau iaith a sgiliau eraill y staff cyfredol ac yn gwneud y defnydd gorau posibl ohonynt, ond dylai rhai manteision gael eu gweld gan y cwsmeriaid a'r cynrychiolwyr yn ddiymdroi.

Marsiandïo

Mae'r gwasanaeth marsiandïo i WH Smith a Tesco yn rhan bwysig o'r gwasanaeth ehangach y dylai CLIC fod yn ei gynnig er mwyn cyrraedd cynulleidfa ehangach, ac yn gerbyd pwysig ar gyfer twf er bod rhaid cydnabod mai cyfyng iawn fydd ystod y llyfrau yn stoc allanfeydd o'r fath. Mae'n bwysig nodi llwyddiant arbennig llyfrau Cymraeg i blant drwy'r allanfeydd hyn i'r farchnad dorfol. Mae stocio ystod o lyfrau yn yr allanfeydd hyn yn galluogi cwsmeriaid na fyddent fel arall efallai yn brynwyr llyfrau i weld a dewis llyfrau fel rhan o'u bywyd beunyddiol – yn hytrach na thrwy wneud ymweliad arbennig â siop lyfrau. Mae grym yr allanfeydd hyn yn y farchnad gymaint fel bod rhaid i gyhoeddwy'r a dosbarthwyr gyfarfod â hwy ar eu telerau hwy – ac os yw'r berthynas am fod yn llwyddiannus mae hynny'n cynnwys rheoli'r stoc yn y siopau ar adegau sy'n gweddu i'r manwerthwr (rhywbeth sy'n amhosibl i'w gymodi gydag amserlen gynlluniedig y cynrychiolwyr masnach ar gyfer ymweld â siopau llyfrau). Mae'r strwythur cyfredol yn cynnwys marsiandïwr amser llawn llwyddiannus ar gyfer CLIC, ac fe argymhellwn bod hynny'n parhau gan ddefnyddio'r staff cyfredol.

Petai'r sefyllfa staffio'n newid, dylai'r rheolwyr ystyried rhannu'r swyddogaeth ar sail ddaearyddol rhwng dau neu fwy o farsiaidwyr rhanbarthol, yn ddibynnol ar nifer yr allanfeydd fyddai'n cael eu gwasanaethu.

Swyddog Gwerthiant LPW

Mae'r swydd hon, a grewyd gan Gyngor y Celfyddydau, wedi bod yn bwysig i adeiladu gwerthiant rhagor o gyhoeddiadau llenyddol Saesneg o Gymru. Ond mae'r galw am y gwasanaeth arbenigol hwnnw wedi'i wanhau wrth i un cyhoeddwr ymadael â'r consortiwm a chan y cynnydd yn yr hyn a gyhoeddir yn Saesneg gan gyhoeddwyr eraill yng Nghymru – mae cyfanswm cynnyrch teitlau newydd yn Saesneg wedi codi o 20% ers 2001. At hynny, gyda helaethu cylch gorchwyl CLIC, bydd y ffocws y mae'n ofynnol ei roi bellach i gyhoeddi ysgrifennu Saesneg yng Nghymru yn arwain at ehangu ystod (yn ogystal â niferoedd) y llyfrau a gyhoeddir yn yr iaith honno i gwmpasu rhagor o lyfrau poblogaidd sydd â'r potensial i gyrraedd marchnad ehangach. Yn yr amgylchiadau hyn rhaid iddi fod yn iawn, dros amser, i symud o'r sefyllfa bresennol o un cynrychiolydd arbenigol Saesneg a dau gynrychiolydd masnach llawn i sefyllfa lle bydd pob un o'r tri chynrychiolydd yn cludo ystod lawn y cyhoeddiadau Cymraeg a Saesneg a gytundebwyd gyda CLIC yn eu tiriogaethau eu hunain.

Argymhellwn na ddylid adnewyddu'r trefniant gyda LPW ym mis Medi ac y dylid dechrau ailgyflunio tiriogaethau a chyfrifoldebau'n rhannol (gweler uchod).

Hyfforddiant

Dylid rhoi hyfforddiant rheolaidd a chysiau gloywi i'r cynrychiolwyr – ar dechnegau gwerthu, dadansoddi gwybodaeth o'r farchnad, technegau adrodd, a blaen- ac ôl-restrau cyhoeddwr (a ddiffinnir yn y cyswllt hwn fel llyfrau sy'n parhau i werthu neu sydd â photensial gwirioneddol i werthu ar ôl blwyddyn gyntaf eu cyhoeddi) yn rhan o raglenni'r cynadleddau gwerthu dwywaith-y-flwyddyn. Dylid cael hyfforddiant arbennig ar bynciau penodol, megis gwerthu teitlau academiaidd neu lyfrau drud. O ystyried natur gystadleuol iawn marchnad manwerthu llyfrau Saesneg, bydd angen hyfforddiant penodol mwy datblygedig ar dechnegau gwerthu ac ar greu a darparu deunyddiau gwerthu a marchnata priodol i'r farchnad.

Dylid rhoi hyfforddiant a set o reolau a pharmedrau cytunedig yn eu lle i alluogi'r tîm gwerthu i gynnig gostyngiad ychwanegol i'w cwsmeriaid mewn amgylchiadau penodol, a gymeradwywyd gan y rheolwyr gwerthiant, a all arwain at archeb fwy neu werthu stoc araf-ei-symud yn gyflymach (gweler isod hefyd).

Dylid dynodi cyrsiau hyfforddi lefel uwch priodol ar reoli gwerthiant a marchnata ar gyfer y staff gwerthu a marchnata mewnol.

Rheoli cyfrifon llyfrwerthwyr

Dylid adolygu cylch galw'r cynrychiolwyr a'i addasu i wneud lle i'r angen am werthu mwy ffocysedig, cost-effeithiol a marchnad-ymwybodol gyda rhagor o amser ar gyfer cyfrifon sydd â'r potensial i dyfu ac ar gyfer gwerthu'r ôl- restr. Mae'r rhaglen gyfredol lle mae'r rhan fwyaf o'r cyfrifon yn cael ymweliad ar gylch 4-6 wythnos yn fwy nag y gall trosiant llawer o'r cyfrifon hynny ei gyfiawnhau. Ar hyn o bryd gwneir iawn am aneffeithiolrwydd cyflenwi blaen-wybodaeth am deitlau a rhaglenni cyhoeddi oddi wrth gyhoeddwr gan amlder (drud) ymweliadau cynrychiolwyr â siopau llyfrau. Wrth i'r cyhoeddwr roi sylw dyledus i raglen y llwybr critigol, bydd y gwelliannau hanfodol o ran cyflenwi gwybodaeth amserol a thymhorol am deitlau newydd a chyhoeddi, yn galluogi cynrychiolwyr i werthu llyfrau ymhellach ymlaen ar hyd y rhaglen gyhoeddi a gwerthu'n fwy effeithiol heb fod angen galw mor aml.

Ceir proses o dargedu yn ôl tiriogaeth cynrychiolydd, yn ôl teitlau allweddol, ac yn ôl cwsmeriaid allweddol, ac adolygir perfformiad yn erbyn targedau yn rheolaidd. Tra dylid cadw at egwyddor cynrychiolaeth gynhwysfawr o ran teitlau a chwsmeriaid fel ei gilydd, dylid gosod blaenoriaethau cliriach.

Ychwanegiad at werthu wyneb-yn-wyneb fydd telewerthu a gwerthu drwy'r e-bost, i raddau helaeth, ond gall gymryd lle rhai galwadau os ydynt yn orfynych naill ai o safbwynt anghenion cwsmeriaid neu faint y cyfrif.

Cydnabyddiaeth ariannol

Mae cyflogau'r cynrychiolwyr yn cydymffurfio'n fras â chyflogau gwerthu rhanbarthol yn Lloegr a'r Alban, ac mae'r cynllun bonws, a osodir yn ôl targedau gwerthu wedi'u seilio ar gymharu perfformiad hanesyddol, yn un a ddefnyddir yn helaeth mewn manau eraill. Dylid adolygu dau gydran eu pecyn cydnabyddiaeth yn rheolaidd yn erbyn cymaryddion yn y diwydiant. Dylid adolygu darpariaeth offer priodol i'r cynrychiolwyr ar gyfer y gwaith o werthu. Dylai fod ganddynt ffônau symudol gyda chyfleuster yn-y-car di-ddwylo a chan fod cyfrifiaduron ac argraffyddion yn offer angenrheidiol i'w gwaith dylent fod ar gael yn hwylus.

Dylid trafod perfformiad cynrychiolwyr mewn cyfarfod cloriannu blynyddol (system sydd eisoes yn ei lle) ond dylai hynny edrych ar fasedaidd o ffactorau megis ansawdd adborth, mentrau marchnata, lleihad rheoledig mewn dychweliadau ac ati, yn ogystal â chynnydd mewn gwerthiant.

2.3. Newidiadau i weithrediad y Ganolfan Ddosbarthu

Mae'r llyfrwerthwyr arbenigol Cymraeg i'w gweld yn gyffredinol fodlon â gweithrediad beunyddiol y GDd – yr un fath â llyfrwerthwyr eraill sydd wedi treulio amser yn datblygu cydberthynas weithio dda gyda rheolwyr y GDd. Fodd bynnag, gwelwyd bod peth o'r feirniadaeth gryfaf wedi dod oddi wrth y

llyfrwerthwyr cadwyn sy'n gyfarwydd â gwasanaeth cwmser sy'n ymatebol iawn i'r llyfrwerthwr. Mae'r GDd yn edrych fel petai'n llai ffocysedig ar wasanaeth i'r cwsmer yn ei ddull o weithredu na'r cyfanwerthwyr Saesneg, sy'n araf ennill tir yn y farchnad yng Nghymru, a hynny, dros amser, ar draul y farchnad yng Nghymru. Os yw hi i dyfu a helaethu yr hyn mae'n ei gynnig drwy ei gwasanaeth rhaid i'r GDd ddod yn fwy rhagweithredol yn ei gwasanaeth i'r cwsmer. Rhaid iddi hefyd fod yn fwy rhagweithredol yn ei rheolaeth o gyfrifon a mynd allan at ei chwsmeriaid i ddod o hyd i ffyrdd o roi rhagor a gwell gwybodaeth a gwasanaeth iddynt. Mae hwn yn waith a ddylai gael ei arwain gan yr Uwch Swyddog Gwerthiant yn cydweithio â rheolwyr y GDd.

Dychweliadau

Yn rhan o'r newid mewn diwylliant a ddaw yn sgil y cytundebau newydd a'r ad-drefnu a gynigir, dylai'r GDd fabwysiadu agwedd gadarnach ar yr un agwedd ar dychweliadau sy'n hollol wahanol i'r arfer sefydledig yn y fasnach lyfrau – sef ad-dalu llyfrwerthwyr am gost dychwelyd stoc i'r warws. Yn y cyswllt hwn, efallai y bydd angen i'r GDd a'r cyhoeddwr fod yn fwy hyblyg wrth werthuso beth sy'n stoc wedi'i ddifrodi.

Y System Archeb Sefydlog

Mae hon yn rhan bwysig o'r gwasanaeth marchnata a gynigir gan CLIC. Mae'n galluogi siopau llyfrau dethol sy'n tanysgrifio i dderbyn yn otomatig, adeg eu cyhoeddi, nifer a ragnodwyd o gopiau o bob llyfr a gyhoeddir gan gyhoeddwr yng Nghymru ac i ddefnyddio'r hyn sydd, i bob diben, yn samplau gwerthu naill ai fel stoc yn y siop lyfrau, neu yn samplau i seilio penderfyniadau gwerthu arnynt, neu yn samplau i'w cylchredeg i'r llyfrgelloedd neu ysgolion sy'n gwmseriaid iddynt. Mae'r gwasanaeth yn darparu gwerth ychwanegol i lyfrwerthwyr yng Nghymru, sy'n cydymffurfio â diben a chenhadaeth CLIC. Mae'n rhoi mantais gystadleuol ac yn galluogi llyfrwerthwyr llai o faint i gario ystod ehangach o stoc nag y byddent fel arall yn gallu neu yn dewis ei wneud; mae hefyd yn caniatáu i lyfrwerthwyr mwy mentegarol i farchnata eu busnes i ystod ehangach o gwsmeriaid. Mae gan lyfrwerthwyr y dewis o gadw a thalu am stoc yr archeb sefydlog neu ei dychwelyd i'r GDd.

Dylid cadw'r gwasanaeth archeb sefydlog, ond dylid ei wneud yn fwy detholus o lawer. Dylid addasu niferoedd i gydweddu â pherfformiad hanesyddol a dylid ystyried system i anfon teitlau allan yn ddetholus. Fodd bynnag, rhaid adolygu aelodaeth y cynllun yn flynyddol yn unol â'r defnydd ohono a'r dychweliadau – a chyda golwg ar gynnwys, o bosibl, aelodau newydd i'r cynllun fydd yn gallu, efallai, elwa o'r cyfleoedd marchnata a gwerthu ehangach y mae'r cynllun yn eu darparu. Bydd rhaid i'r GDd ddyfeisio system i fonitro dychweliadau yn deillio o'r drefn hon o Archeb Sefydlog.

Gostyngiadau amrywiadwy

Ar hyn o bryd nid oes gan y GDd systemau i ganiatáu i ostyngiadau gwahanol gael eu rhoi i wahanol gwsmeriaid am yr un teitl. Mae hyn yn llesteirio hyblygrwydd gwerthu a'r potensial am dwf mewn refeniw. Mae angen adolygu'r sefyllfa hon yn ofalus i weld a oes ffyrdd y gall cyfleuster o'r fath gael ei gyflwyno heb fuddsoddiad sylweddol ychwanegol.

Adeiladu cyfrifon llyfrwerthwyr

Bydd angen mynd i'r afael â rheoli a datblygu manwerthu ar bob lefel yn y strwythur gwerthu, o Bennaeth Gwerthu a Marchnata ar lefel strategol drwy'r Uwch Swyddog Gwerthiant i'r cynrychiolwyr – a'r cwbl mewn cydweithrediad â rheolwyr y GDd.

Yn achos siopau llyfrau bach annibynnol, dylid rhoi ystyriaeth i gyflwyno gostyngiadau cymell ychwanegol er mwyn datblygu eu busnes llyfrwerthu ac i gynyddu'r stoc-ddaliad. Yn dâl am y gostyngiad ychwanegol, dylid cael cytundeb ar gadw stoc (am gyfnod i gytuno arno) ac ar ddychweliadau, yn cynnwys cost dychwelyd.

Mae hyn yn berthnasol i'r sylwadau ar wendid yr isadeiledd y cyfeiriwyd ato ar d18. Nodwn hefyd fod argymhelliad i'r diben hwn wedi'i gynnwys yn y Strategaeth Farchnata Gytûn a baratowyd gan y fasnach a'i chyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2003.

TG

Mae'n hanfodol bod y GDd yn sefydlu ei systemau TG i dderbyn System Archebu Electronig (EDI) – mae hyn eisoes ar y gweill a bydd ar gael yn y dyfodol agos. Rhaid iddi hefyd brysuero llif gwybodaeth y cyhoeddwyr ynghylch argaeledd stoc a cheisio datblygu gwasanaeth *gwales.com* ymhellach er mwyn iddo gyflenwi gwybodaeth stoc amser-real i gwsmeriaid sy'n defnyddio'r gwasanaeth i osod archebion.

Dylai buddsoddiad parhaus i wella *gwales.com* ar gyfer cyfrifon masnach a chwsmeriaid (yn cynnwys rhai yng ngweddill y DG a thramor) barhau i fod yn flaenoriaeth.

Ystyriwn hyn yn hanfodol os yw'r GDd i barhau i fod yn gystadleuol ochr yn ochr â'r grwpiau cyhoeddi mawr a'r cyfanwerthwyr Prydeinig (ac yn wir os yw i barhau i fasnachu o gwbl gyda rhai cwsmeriaid allweddol). Rydym yn cydnabod y bydd cost arwyddocaol, ond byddem yn dadlau bod dadl anorthrech am gyllid arbennig yn y maes hwn.

2.4. Strategaeth cyhoeddi

Bydd cyfle i Gyngor Llyfrau Cymru barhau i feithrin a chodi ansawdd cyhoeddi yng Nghymru, yng nghyd-destun ehangu ei faes gorchwyl o ran dosbarthu grantiau, ac yn y berthynas fwy rhagweithredol rhyngddo a chyhoeddwy'r Cymru a ddylai ddeillio o argymhellion yr adroddiad hwn. Bydd hyn nid yn unig yn dwyn effeithiau cadarnhaol o ran gwerthiant drwy'r Ganolfan Ddosbarthu. Bydd yn cynyddu'r potensial ar gyfer gwerthu'r llyfrau hyn mewn mannau eraill yn y DG ac mewn marchnadoedd eraill, naill ai yn allforion neu drwy drwyddedu hawliau; bydd hynny yn ei dro'n cyflawni rhannau pwysig o agendâu diwylliannol a masnachol CLIC.

Atodiad I: Cytundebau

Mae'r adroddiad hwn wedi argymhell tair lefel o gytundeb gwasanaeth rhwng Canolfan Ddosbarthu Cyngor Llyfrau Cymru a'i chyhoeddwyrgyflenwyr – Aur, Arian ac Efydd, a ddisgrifir yn fanwl ar dudalennau 29–32. Cytundebau drafft yw'r canlynol i gwmpasu'r gwasanaethau Aur ac Arian. Bydd y Gwasanaeth Efydd yn gweithredu ar sail y telerau a'r amodau cyfanwerthu a ddefnyddir eisoes gan y Ganolfan Ddosbarthu.

1. Cytundeb y Gwasanaeth Aur

Gwneir y cytundeb hwn rhwng Cyngor Llyfrau Cymru, Castell Brychan, Aberystwyth, Ceredigion (a elwir o hyn ymlaen y Cyngor) a _____ (a elwir o hyn ymlaen y Cyhoeddwr) ar gyfer gwerthu a dosbarthu cyhoeddiadau yng Nghymru.

I DIFFINIADAU

- a) Mae 'Nwyddau' yn golygu unrhyw gynnyrch, llyfrau, cyhoeddiadau (yn cynnwys unrhyw ran-gyflenwadau o nwyddau ac unrhyw nwyddau o sefydliadau eraill y gall y Cyhoeddwr fod yn gweithredu yn asiant iddynt) y mae'r Cyhoeddwr i'w cyflenwi yn unol â'r telerau a'r amodau a geir yma.
- b) Mae 'Cludydd' yn golygu'r cludydd a benodwyd gan y Cyhoeddwr i ddelifro'r nwyddau i'r Cyngor.
- c) Mae 'Transffer' yn diffinio cytundeb lle cyflenwir nwyddau i'r Cyngor gan y Cyhoeddwr gyda nodyn delifro ond heb i'r Cyhoeddwr roi anfoneb hyd nes y caiff wybod gan y Cyngor eu bod wedi'u gwerthu, trefniant y cyfeirir ato fel 'ar dransffer'.
- ch) Mae 'Telerau' yn golygu'r telerau a'r amodau safonol a ddatgenir yn y ddogfen a/neu a ailgyhoeddir neu a adolygir gan y Cyhoeddwr neu Gyngor Llyfrau Cymru o bryd i'w gilydd ac sy'n cynnwys unrhyw delerau ac amodau arbennig y cytunwyd yn ysgrifenedig arnynt rhwng y Cyhoeddwr a'r Cyngor.
- d) 'Cytundeb' yw'r cytundeb ar gyfer cyflenwi a gwerthu'r nwyddau.
- dd) Mae 'ysgrifenedig' yn cynnwys llythyron, negeseuon ffacs, post electronig a dulliau cymaradwy eraill o gyfathrebu.

II CYFNOD Y CYTUNDEB

Bydd y cytundeb hwn yn dechrau ar y 1af o XXXXXX 200X a bydd yn parhau am gyfnod dechreuol o dair blynedd. Os caiff ei adnewyddu, bydd y Cytundeb yn parhau nes ei derfynu gan naill ai'r Cyngor neu'r Cyhoeddwr drwy roi rhybudd terfynu ysgrifenedig o ddim llai na chwe mis i'r llall.

III CYFRIFON A THELERAU DOSBARTHU

Mae'r Cyhoeddwr yn cytuno y bydd Canolfan Ddosbarthu'r Cyngor yn darparu gwasanaeth anghynhwysol (ecsgliwsif) ar gyfer gwerthu a dosbarthu ei

gyhoeddiadau yng Nghymru a gwasanaeth an-anghynhwysol (heb fod yn ecsgliwsif) mewn mannau eraill. Rhaid i'r Cyngor gael gwybod am a chytuno ar unrhyw eithriadau i'r anghynwysoldeb (e.e. trefniadau marsiandïo na ellir eu gwasanaethu gan y Cyngor). Oni chytunir ymlaen llaw rhwng y partion ni fydd y Cyhoeddwr yn gwerthu stoc ei deitlau i siopau llyfrau lle mae gan gynrychiolwyr CLIC gydberthynas gwerthu gyfredol a pharhaus ac mae'n ymrwymo i gyfeirio pob archeb gwerthu am deitlau a gynrychiolir gan CLIC drwy CLIC.

Bydd y Cyngor yn darparu cynrychiolaeth fasnach lawn i holl gyhoeddiadau'r Cyhoeddwr yng Nghymru ac yn ceisio datblygu gwerthiant mewn mannau eraill yn y DG a marchnadoedd allforio. Bydd y Cyhoeddwr yn ceisio datblygu cyfrifon newydd i ganolfan ddsbarthu CLIC yng Nghymru ac mewn mannau eraill.

Bydd y Cyngor yn darparu adroddiad misol i'r Cyhoeddwr yn cynnwys gwybodaeth fasnachol-sensitif a manwl am werthiant mewn perthynas â'r holl gyfrifon mae'n eu gwasanaethu ar ran y Cyhoeddwr, gwybodaeth gwerthiant am bob teitl newydd a theitlau allweddol yr ôl-restr, adroddiad 'dues' ar deitlau sydd i ddod a'r rhai sydd allan o stoc, ac adroddiad cyffredinol byr ar y farchnad yn dadansoddi pynciau megis tueddiadau'r farchnad mewn perthynas â sectorau cynnyrch, prisio, gweithgaredd cystadleuol a chyfleoedd marchnata a llwyddiannau lle bo hynny'n berthnasol yn y mis hwnnw.

Y canlynol yw'r eithriadau cyfredol i'r cytundeb i gyflenwi'n anghynhwysol: . . .

IV CYFLENWI STOC

Ceidw'r Cyngor yr hawl i fod â'r dewis terfynol o ran y teitlau a ddelir a lefelau'r stoc. Er hynny, gwarentir stocio a storio lleiafswm cytunedig o bob teitl a gyhoeddir gan y Cyhoeddwr ym mlwyddyn ei gyhoeddi a thrwy fywyd gweithredol y teitl.

Bydd y Cyhoeddwr yn cyflenwi nwyddau i'r Cyngor ar sail 'transffer' ac yn delifro i gwsmeriaid sy'n archebu o fewn dau ddiwrnod gwaith i dderbyn archebion. Bydd nodau delifro yn dod gyda phob delifriad. Dylai'r wybodaeth yn y nodau delifro gynnwys nifer y teitlau, rhifau ISBN, teitl llawn y cyhoeddiad, pris a chodau gostyngiadau cywir. Cyflenwir teitlau newydd cyn gynted ag y byddant ar gael. Bydd y Cyngor yn ailarchebu stoc yn ôl y galw.

Os bydd y Cyhoeddwr yn oedi gyda delifro i ganolfan ddsbarthu'r Cyngor ond yn delifro i allanfeydd cytunedig eraill, ceidw'r Cyngor yr hawl i gymryd gostyngiad ychwanegol o 2.5% o werthiant y teitl gydol oes y teitl arbennig hwnnw.

Gwerthir cynnyrch am bris a benodir gan y Cyhoeddwr a fydd o dan ddyletswydd gofal i roi gwybod yn ysgrifenedig i'r Cyngor am unrhyw newid i brisiau, ac fe fydd yn atebol os na wnaiff. Y Cyngor fydd yn atebol os derbynnir gwybodaeth am newid prisiau heb eu gweithredu.

Ni fydd y Cyngor yn derbyn dychweliadau gan siop lyfrau a gyflenwyd yn uniongyrchol gan y Cyhoeddwr neu gyflenwr arall.

V BLAEN-WYBODAETH

Bydd y Cyhoeddwr yn rhoi gwybod i'r Cyngor mewn da bryd am unrhyw gyhoeddiadau newydd ac yn darparu rhifau ISBN, cloriau ymlaen llaw/proflenni cloriau, dyddiadau cyhoeddi, Taflenni Blaen-Wybodaeth a deunydd marchnata perthnasol arall yn unol â rhaglen gytunedig y llwybr critigol a ddiffiniwyd gan y Cyngor. Rhoir gwybodaeth am newidiadau i wybodaeth lyfryddol a dyddiadau cyhoeddi gan y Cyhoeddwr i'r Cyngor o fewn 48 awr.

Os nad yw'r Cyhoeddwr yn glynu at raglen y llwybr critigol, gall y teitlau dan sylw *naill ai* gael eu symud yn ôl yn y cylch gwerthu *neu* eu stocio ond heb eu blaenoriaethu yng nghyflwyniadau gwerthu'r cynrychiolwyr.

Bydd y Cyhoeddwr yn cyflenwi deunyddiau priodol ar gyfer y cynadleddau gwerthu ddwywaith y flwyddyn ac yn mynychu pob cynhadledd werthu er mwyn cyflwyno'r teitlau sydd i ddod i'r tîm gwerthu a marchnata.

VI TALIADAU

Rhoddir Adroddiad Symudiad Stoc yn cynnwys manylion gwerthiant y mis blaenorol i'r Cyhoeddwr cyn diwedd wythnos gyntaf y mis canlynol a bydd anfonebau TAW a nodau credyd yn cael eu rhoi i'r Cyngor gan y Cyhoeddwr ar sail yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiadau. Dylai'r Cyhoeddwr roi gwybod am anghysondebau i Bennaeth Cyllid y Cyngor cyn cynhyrchu anfonebau a nodau credyd, neu bydd hi'n ddealedig bod y Cyhoeddwr wedi derbyn bod yr holl wybodaeth yn gywir. Gwneir taliadau gan y Cyngor i'r Cyhoeddwr o fewn 30 diwrnod i anfoneb y cyhoeddwr.

VII GOSTYNGIAD A GANIATEIR

Bydd y Cyhoeddwr yn cyflenwi i'r Cyngor ar delerau cyfanwerthu o 45% lle mae'r telerau manwerthu arferol yn 35% (gan gynnwys 2.5% gostyngiad setliad). Os defnyddir unrhyw delerau manwerthu eraill bydd y telerau cyfanwerthu gyfryw fel y bydd gwarged o 15.385% o'r pris net yn aros i'r Cyngor ar ôl gostyngiad manwerthu.

Bydd y Cyngor a'r Cyhoeddwr yn gweithio gyda'i gilydd i adeiladu gwerthiant mewn cyfrifon cyfredol ac i nodi a datblygu allanfeydd neu gyfleoedd marchnata newydd ar gyfer cynnyrch y Cyhoeddwr.

Gall y Cyngor a'r cyhoeddwr gytuno ar ostyngiadau ychwanegol ar gyfer cwsmeriaid manwerthu yn achos hyrwyddiadau arbennig a bydd y Cyngor, yn yr achosion hynny, yn derbyn gostyngiad ychwanegol priodol gan y Cyhoeddwr.

Bydd y Cyhoeddwr yn cefnogi mentrau gan y Cyngor i helaethu gwerthiant ei lyfrau drwy gyfanwerthwyr y DG a chwsmeriaid cytunedig eraill drwy roi gostyngiad priodol ychwanegol i'r Cyngor.

Ceidw'r Cyngor yr hawl i hawlio gostyngiad ychwanegol o 2.5% os nad yw'r teitlau'n cael eu delifro mewn cyflwr gwerthadwy, h.y. heb godau bar neu godau bar anghywir neu annarllenadwy.

Pan fydd y Cyhoeddwr, gyda chytundeb CLIC, yn cyflenwi allanfeydd manwerthu cytunedig eraill mae'r Cyhoeddwr yn ymrwmo na fydd lefelau gostyngiadau anfonebedig yn fwy ffafriol na'r rhai a roddir gan y Ganolfan Ddosbarthu.

VIII GOFALU AM STOC

O'r Dyddiad Dechrau a thrwy gydol cyfnod y Cytundeb mae'r Cyngor yn ymrwmo i ddarparu cyfleusterau warws glân a sych yn ei adeiladau ar gyfer niferoedd digonol o amryfal deitlau.

Bydd y Cyngor hefyd yn cynnal system gyflawni ar gyfrifiadur a fydd yn cwmpasu holl gylch prosesu archebion o dderbyn yr archeb i fancio'r arian, codi anfonebau, pacio ac anfon ar gyfer pob archeb am gynnyrch y Cyhoeddwr, gan gynnwys cofnodi dyledion a rhoi adroddiad misol am wybodaeth gwerthu. Bydd y Cyngor yn gweinyddu telerau masnach yn ôl y meini prawf a osodwyd gan y Cyhoeddwr ac y gellir eu hadolygu gan y Cyhoeddwr ar unrhyw adeg mewn dull gofalus a chyfrifol. Bydd y Cyngor hefyd yn dilyn dyledion drwg a cheidw'r Cyngor yr hawl i adfer stoc yn achos unrhyw anfonebau na thalwyd. Bydd y Cyngor yn cario unrhyw golledion ariannol o ganlyniad i ddyledion drwg er y caiff rhai allanfeydd sy'n wynebu anawsterau ariannol ddychwelyd llyfrau am gredyd, a chaiff hynny effaith net ar werthiant cyfredol. Cyn gynted ag y bydd nwyddau'n cael eu hanfonebu i gwsmer byddant yn dod yn eiddo i'r Cyngor nes i'r cwsmer dalu amdanynt.

IX PERCHNOGAETH STOC

Bydd y nwyddau'n parhau yn eiddo i'r Cyhoeddwr tra bod y nwyddau hynny yng Nghanolfan Ddosbarthu'r Cyngor a bydd y Cyhoeddwr yn gwneud ei drefniadau ei hun i sicrhau yswiriant digonol.

Petai'r Cyhoeddwr yn mynd i ddwylo derbynnydd ceidw'r Cyngor yr hawl i hawlrwym at werth 2% o werth manwerthu'r stoc.

Bydd y Cyhoeddwr yn caniatáu i'r Cyngor gymryd hyd at saith copi *gratis* o deitlau newydd o'r stoc at ei ddibenion ei hun, a rhagor o gopiâu trwy drefniant.

X DELIFRO A DYCHWELYD NWYDDAU

Bydd y Cyhoeddwr yn gyfrifol am gludo'r nwyddau i'r Cyngor er y gall y Cyngor gasglu yn ôl ei ddewis. Os yw'r Cyngor yn casglu nwyddau oddi wrth y Cyhoeddwr y Cyngor fydd yn gyfrifol am y stoc cyn gynted ag y bydd wedi'i lwytho ar fan ddelifro'r Cyngor. Bydd y Cyngor yn gyfrifol am gludo dychweliadau i'r cyhoeddwr – oni bai bod y Cyhoeddwr yn gofyn am i lyfrau penodol gael eu dywchelyd; os felly y Cyhoeddwr fydd yn gyfrifol am gostau cludo, oni bai bod y ceisiadau hynny'n ganlyniad gor-archebu pryd bydd y Cyngor yn gyfrifol am gostau cludo. Y Cyngor fydd yn atebol am niwed neu golled tra bod nwyddau ar y ffordd oddi wrth y Cyngor at y Cyhoeddwr neu ei gwsmeriaid.

Archwilir yr holl becynnau, cistiau ac ati a ddelifrir gan gludydd i'r Cyngor neu a gesglir gan fan ddelifro'r Cyngor, adeg eu derbyn, ym mhresenoldeb y cludydd.

Lle bydd y nwyddau'n wahanol i'r hyn a fanylir ar y nodyn delifro neu'n ymddangos fel petai rhywun wedi ymyrryd â hwy neu wedi'u niweidio, cofnodir hynny ar daflen delifro'r cludydd, ac anfonir gwybodaeth ysgrifenedig at y cyhoeddwr a'r cludydd o fewn 48 awr. Lle bydd pecynnau'n ymddangos mewn cyflwr boddhaol rhoir llofnod clir. Bydd y nwyddau'n cael eu dadbacio a'u gwirio'n ddiymdroi ac unrhyw anghysondebau neu niwed eto'n cael eu hysbysu i'r Cyhoeddwr yn ysgrifenedig o fewn 24 awr.

XI DYCHWELIADAU O SIOPAU LLYFRAU

Tra bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau bod siopau llyfrau'n dychwelyd unrhyw gopïau nas gwerthwyd mewn cyflwr gwerthadwy, mae'r Cyhoeddwr yn ymrwmo i dderbyn cyfrifoldeb ariannol am unrhyw ddychweliadau o siopau llyfrau gan gynnwys y rhai nad ydynt mewn cyflwr digon da i'w gwerthu. Dychwelir y rhain i'r Cyhoeddwr ynghyd ag unrhyw lyfrau diffygiol eraill, bob chwarter.

XII CYFRINACHEDD

Ni fydd y Cyngor na'r Cyhoeddwr, yn ystod bodolaeth y Cytundeb hwn, nac ar ôl ei derfynu, yn datgelu'n uniongyrchol nac yn anuniongyrchol i unrhyw gwmni, ffyrn na pherson, gynnwys y Cytundeb hwn nac unrhyw wybodaeth gyfrinachol a gafwyd yn ystod telerau'r Cytundeb hwn.

XIII CYFRIF STOC

Bydd y Cyngor yn ymgymryd â chyfrif stoc yn gorfforol unwaith y flwyddyn ac yn trosglwyddo'r adroddiadau i'r cyhoeddwr o fewn deg diwrnod ar hugain i gyfrif y stoc. Bydd y Cyngor yn atebol am unrhyw brinder net mewn stoc am ddim mwy na'r gwerth sylweddadwy net i'r Cyhoeddwr.

Gall y Cyhoeddwr, ar ôl rhoi rhybudd rhesymol, archwilio'r stoc a chyfrif y stoc ei hun os oes angen ac ar ei gost ei hun ac ar adegau rhesymol i'r Cyngor.

XIV TERFYNU

- a) Terfynir y Cytundeb hwn yn ddiymdroi os bydd unrhyw barti'n cael ei ddatgan yn fethdalwrus neu'n gorffen masnachu.
- b) Gall y Cyngor derfynu'r Cytundeb hwn:
 - i) yn ddiymdroi drwy rybudd i'r Cyhoeddwr os yw'r Cyhoeddwr yn gorffen gweithredu ei fusnes neu sylwedd ei holl fusnes neu'n bygwth gwneud hynny (heblaw ar gyfer ailadeiladu neu gyfuno) neu yn gwerthu neu waredu mewn modd arall (naill ai drwy un gweithrediad neu ddau neu fwy o weithrediadau perthynol neu beidio) y cyfan neu ran sylweddol o'i weithrediadau neu asedau ac eithrio gyda chaniatâd ysgrifenedig blaenorol y Cyngor.
 - ii) yn ddiymdroi drwy rybudd i'r Cyhoeddwr os yw'r Cyhoeddwr yn cyflawni tor-cytundeb materol mewn perthynas â'r Cytundeb hwn ac, os oes posibilrwydd ei gywiro, nad yw'n cael ei gywiro o fewn cyfnod o ddeng

niwrnod ar hugain o dderbyn rhybudd ysgrifenedig gan y Cyngor i wneud hynny.

c) Gall y Cyhoeddwr derfynu'r Cytundeb hwn:

i) yn ddiymdroi drwy rybudd i'r Cyngor os bydd y Cyngor yn gorffen gweithredu ei fusnes neu sylwedd ei holl fusnes neu'n bygwth gwneud hynny (heblaw at ddiben ailadeiladu neu gyfuno) neu'n gwerthu neu waredu mewn modd arall (naill ai drwy un gweithrediad neu ddau neu fwy o weithrediadau perthynol neu beidio) y cyfan neu ran sylweddol o'i weithrediadau neu asedau ac eithrio gyda chaniatâd ysgrifenedig blaenorol y Cyhoeddwr.

ii) yn ddiymdroi drwy rybudd i'r Cyngor os bydd i'r Cyngor gyflawni tor-cytundeb materol mewn perthynas â'r Cytundeb hwn ac, os oes posibilrwydd ei gywiro, nad yw'r toriad yn cael ei gywiro o fewn cyfnod o ddeng niwrnod ar hugain o dderbyn rhybudd ysgrifenedig gan y Cyhoeddwr i wneud hynny.

iii) ar ei ddewis ei hun, drwy rybudd o ddim llai na chwe mis calendr i'r Cyngor.

ch) Os terfynir y Cytundeb gan y naill barti neu'r llall, bydd y Cyngor yn ymgymryd â gwirio'r stoc fel ar ddyddiad y terfynu a bydd yn atebol am unrhyw brinder am gost uned unrhyw stoc colledig o'r fath; a bydd y Cyngor, o fewn 30 diwrnod o ddyddiad y terfynu, yn pacio'r holl stoc sy'n aros yng Nghanolfan Ddosbarthu'r Cyngor mewn modd priodol ac addas ac o fewn 30 diwrnod o ddyddiad y terfynu yn yswirio, yn anfon ac yn delifro'r cyfryw Nwyddau i unrhyw gyfeiriad a bennir gan y Cyhoeddwr.

d) Os terfynir y Cytundeb gan y Cyhoeddwr am unrhyw reswm bynnag, y Cyhoeddwr fydd yn gyfrifol am gost pacio a delifro'r stoc a ddelir iddo yn y Ganolfan Ddosbarthu.

dd) Os terfynir y Cytundeb, anfonir pob archeb ac ymholiad a dderbynnir gan y Cyngor ymlaen i'r Cyhoeddwr am gyfnod lleiaf o 180 o ddiwrnodau o ddyddiad y terfynu.

Llofnodwyd
Ar ran Cyngor Llyfrau Cymru

Dyddiad

Llofnodwyd
Ar ran

Dyddiad

2. Cytundeb y Gwasanaeth Arian

Gwneir y cytundeb hwn rhwng Cyngor Llyfrau Cymru, Castell Brychan, Aberystwyth, Ceredigion (a elwir o hyn ymlaen y Cyngor) a _____ (a elwir o hyn ymlaen y Cyhoeddwr) ar gyfer gwerthu a dosbarthu cyhoeddiadau yng Nghymru.

I DIFFINIADAU

- a) Mae 'Nwyddau' yn golygu unrhyw gynnyrch, llyfrau, cyhoeddiadau (yn cynnwys unrhyw ran-gyflenwadau o'r nwyddau ac unrhyw nwyddau o sefydliadau eraill y gall y Cyhoeddwr fod yn gweithredu yn asiant iddynt) y mae'r Cyhoeddwr i'w cyflenwi yn unol â'r telerau a'r amodau a geir yma.
- b) Mae 'Cludydd' yn golygu'r cludydd a benodwyd gan y Cyhoeddwr i ddelifro'r nwyddau i'r Cyngor.
- c) Mae 'Transfer' yn diffinio cytundeb lle cyflenwir nwyddau i'r Cyngor gan y Cyhoeddwr gyda nodyn delifro ond heb i'r Cyhoeddwr roi anfoneb hyd nes y caiff wybod gan y Cyngor eu bod wedi'u gwerthu, trefniant y cyfeirir ato fel 'ar dransfer'.
- ch) Mae 'Telerau' yn golygu'r telerau a'r amodau safonol a ddatgenir yn y ddogfen a/neu a ailgyhoeddir neu a adolygir gan y Cyhoeddwr neu Gyngor Llyfrau Cymru o bryd i'w gilydd ac sy'n cynnwys unrhyw delerau ac amodau arbennig y cytunwyd yn ysgrifenedig arnynt rhwng y Cyhoeddwr a'r Cyngor.
- d) 'Cytundeb' yw'r cytundeb ar gyfer cyflenwi a gwerthu'r nwyddau.
- dd) Mae 'ysgrifenedig' yn cynnwys llythyron, negeseuon ffacs, post electronig a dulliau cymaradwy eraill o gyfathrebu.

II CYFNOD Y CYTUNDEB

Bydd y cytundeb hwn yn dechrau ar y 1af o XXXXXX 200X a bydd yn parhau am gyfnod dechreuol o dair blynedd. Os caiff ei adnewyddu, bydd y Cytundeb yn parhau nes ei derfynu gan naill ai'r Cyngor neu'r Cyhoeddwr drwy roi rhybudd terfynu ysgrifenedig o ddim llai na chwe mis i'r llall.

III CYFRIFON A THELERAU DOSBARTHU

Mae'r Cyhoeddwr yn cytuno y bydd Canolfan Ddosbarthu'r Cyngor yn darparu gwasanaeth an-anghynhwysol (heb fod yn ecsgliwsif) ar gyfer gwerthu a dosbarthu ei gyhoeddiadau yng Nghymru ac mewn mannau eraill. Bydd unrhyw eithriadau i anghynwysoldeb yng Nghymru yn cael eu sefydlu ymlaen llaw gyda'r Cyngor. Oni bai bod cytundeb ymlaen llaw rhwng y partion ni fydd y Cyhoeddwr yn gwerthu stoc ei deitlau i'r rhestr o siopau llyfrau yng Nghymru y cytunwyd arni lle mae gan gynrychiolwyr CLIC berthynas werthu gyfredol a pharhaus ac mae'n ymrwymo i gyfeirio pob archeb o'r fath am deitlau a gynrychiolir gan CLIC drwy CLIC.

Bydd y Cyngor yn darparu cynrychiolaeth fasnach lawn i holl gyhoeddiadau'r Cyhoeddwr yng Nghymru i'r manwerthwyr y cytunwyd arnynt ac yn ceisio datblygu gwerthiant mewn manau eraill yn y DG a marchnadoedd allforio. Bydd y Cyhoeddwr yn ceisio datblygu cyfrifon newydd i ganolfan ddsbarthu CLIC yng Nghymru ac mewn manau eraill.

Bydd y Cyngor yn darparu adroddiad byr misol ar y farchnad i'r Cyhoeddwr yn dadansoddi pynciau megis tueddiadau'r farchnad mewn perthynas â sectorau cynnyrch, prisio, gweithgaredd cystadleuol a chyfleoedd marchnata a llwyddiannau yng Nghymru lle bo hynny'n berthnasol yn y mis hwnnw.

Y canlynol yw'r eithriadau cyfredol i'r cytundeb i gyflenwi'n anghynhwysol yng Nghymru: . . .

IV CYFLENWI STOC

Ceidw'r Cyngor yr hawl i fod â'r dewis terfynol o ran y teitlau a lefelau'r stoc a ddelir. Er hynny, gwarantir stocio a storio lleiafswm cytunedig o bob teitl a gyhoeddir gan y Cyhoeddwr ym mlwyddyn ei gyhoeddi a thros fywyd gweithredol y teitl.

Bydd y Cyhoeddwr yn cyflenwi nwyddau i'r Cyngor ar sail 'transfer' ac yn delifro o fewn dau ddiwrnod gwaith i dderbyn archebion. Bydd nodau delifro yn dod gyda phob delifriad. Dylai'r wybodaeth yn y nodau delifro gynnwys nifer y teitlau, rhifau ISBN, teitl llawn y cyhoeddiad, pris a chodau gostyngiadau cywir. Cyflenwir teitlau newydd cyn gynted ag y byddant ar gael. Bydd y Cyngor yn ailarchebu stoc yn ôl y galw.

Os bydd y Cyhoeddwr yn oedi gyda delifro i ganolfan ddsbarthu'r Cyngor, ond yn delifro i allanfeydd cytunedig eraill, ceidw'r Cyngor yr hawl i gymryd gostyngiad ychwanegol o 2.5% o werthiant y teitl gydol oes y teitl arbennig hwnnw.

Gwerthir cynnyrch am bris a bennir gan y Cyhoeddwr a fydd o dan ddyletswydd gofal i roi gwybod yn ysgrifenedig i'r Cyngor am unrhyw newidiadau mewn pris, ac fe fydd yn atebol os na wnaiff. Y Cyngor fydd yn atebol os derbynnir gwybodaeth am newid prisiau heb eu gweithredu.

Ni fydd y Cyngor yn derbyn dychweliadau gan siop lyfrau a gyflenwyd yn uniongyrchol gan y Cyhoeddwr neu gyflenwr arall.

V BLAEN-WYBODAETH

Bydd y Cyhoeddwr yn rhoi gwybod i'r Cyngor mewn da bryd am unrhyw gyhoeddiadau newydd ac yn darparu rhifau ISBN, cloriau ymlaen llaw/proflenni cloriau, dyddiadau cyhoeddi, Taflenni Blaen-Wybodaeth a deunydd marchnata perthnasol arall yn unol â rhaglen gytunedig y llwybr critigol a ddiffiniwyd gan y Cyngor. Rhwir gwybodaeth am newidiadau i wybodaeth lyfryddol a dyddiadau cyhoeddi gan y Cyhoeddwr i'r Cyngor o fewn 48 awr.

Os nad yw'r Cyhoeddwr yn glynu at raglen y llwybr critigol, gall y teitlau dan sylw *naill ai* gael eu symud yn ôl yn y cylch gwerthu *neu* eu stocio ond heb eu blaenoriaethu yng nghyflwyniadau gwerthu'r cynrychiolwyr.

Bydd y Cyhoeddwr yn cyflenwi deunyddiau priodol ar gyfer y cynadleddau gwerthu ddwywaith y flwyddyn ac yn ceisio mynychu'r cynadleddau er mwyn cyflwyno'r rhaglen dymhorol sydd i ddod i'r tîm gwerthu a marchnata.

VI TALIADAU

Rhoddir Adroddiad Symudiad Stoc yn cynnwys manylion gwerthiant y mis blaenorol i'r Cyhoeddwr cyn diwedd wythnos gyntaf y mis canlynol a rhoir anfonebau TAW a nodau credyd i'r Cyngor gan y Cyhoeddwr ar sail yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiadau. Dylai'r Cyhoeddwr roi gwybod am anghysondebau i Bennaeth Cyllid y Cyngor cyn cynhyrchu anfonebau a nodau credyd, neu bydd hi'n ddealliedig bod y Cyhoeddwr wedi derbyn bod yr holl wybodaeth yn gywir. Gwneir taliadau gan y Cyngor i'r Cyhoeddwr o fewn 30 diwrnod i anfoneb y cyhoeddwr.

VII GOSTYNGIAD A GANIATEIR

Bydd y Cyhoeddwr yn cyflenwi i'r Cyngor ar delerau cyfanwerthu o 50% lle mae'r telerau manwerthu arferol yn 35% (gan gynnwys 2.5% gostyngiad setliad). Os defnyddir unrhyw delerau manwerthu eraill bydd y telerau cyfanwerthu gyfryw fel y bydd yr un ganran o'r pris net yn aros i'r Cyngor ar ôl gostyngiad manwerthu.

Bydd y Cyngor a'r Cyhoeddwr yn cydweithio i adeiladu gwerthiant mewn cyfrifon cyfredol ac i nodi a datblygu allanfeydd neu gyfleoedd marchnata newydd ar gyfer cynnyrch y Cyhoeddwr.

Gall y Cyngor a'r cyhoeddwr gytuno ar ostyngiadau ychwanegol ar gyfer cwsmeriaid manwerthu yn achos hyrwyddiadau arbennig a bydd y Cyngor, yn yr achosion hynny, yn derbyn gostyngiad ychwanegol priodol gan y Cyhoeddwr.

Bydd y Cyhoeddwr yn cefnogi mentrau gan y Cyngor i helaethu gwerthiant ei lyfrau drwy gyfanwerthwyr y DG a chwsmeriaid cytunedig eraill drwy roi gostyngiad priodol ychwanegol i'r Cyngor.

Ceidw'r Cyngor yr hawl i hawlio gostyngiad ychwanegol o 2.5% os nad yw'r teitlau'n cael eu delifro mewn cyflwr gwerthadwy, h.y. heb godau bar neu godau bar anghywir neu annarllenadwy.

Pan fydd y Cyhoeddwr, gyda chytundeb y Cyngor, yn cyflenwi allanfeydd cytunedig eraill mae'r Cyhoeddwr yn ymrwmo i beidio â rhoi gostyngiadau mwy ffafriol na'r rhai a roddir gan y Ganolfan Ddosbarthu.

VIII GOFALU AM STOC

O'r Dyddiad Dechrau a thrwy gydol cyfnod y Cytundeb mae'r Cyngor yn ymrwymo i ddarparu cyfleusterau warws glân a sych yn ei adeiladau ar gyfer niferoedd digonol o amryfal deitlau.

Bydd y Cyngor hefyd yn cynnal system gyflawni ar gyfrifiadur a fydd yn cwmpasu holl gylch prosesu archebion o dderbyn yr archeb i fancio'r arian, codi anfonebau, pacio ac anfon ar gyfer pob archeb am gynnyrch y Cyhoeddwr, gan gynnwys cofnodi dyledion a rhoi adroddiad misol am wybodaeth gwerthu. Bydd y Cyngor yn gweinyddu telerau masnach yn ôl y meini prawf a osodwyd gan y Cyhoeddwr ac y gellir eu hadolygu gan y Cyhoeddwr ar unrhyw adeg mewn dull gofalus a chyfrifol. Bydd y Cyngor hefyd yn dilyn dyledion drwg a cheidw'r Cyngor yr hawl i adfer stoc yn achos unrhyw anfonebau na thalwyd. Bydd y Cyngor yn cario unrhyw golledion ariannol o ganlyniad i ddyledion drwg er y caiff rhai allanfeydd sy'n wynebu anawsterau ariannol ddychwelyd llyfrau am gredyd, a chaiff hynny effaith net ar werthiant cyfredol. Cyn gynted ag y bydd nwyddau'n cael eu hanfonebu i gwsmer byddant yn dod yn eiddo i'r Cyngor nes i'r cwsmer dalu amdanynt.

IX PERCHNOGAETH STOC

Bydd y nwyddau'n parhau yn eiddo i'r Cyhoeddwr tra bod y nwyddau hynny yng Nghanolfan Ddosbarthu'r Cyngor a bydd y Cyhoeddwr yn gwneud ei drefniadau ei hun i sicrhau yswiriant digonol.

Petai'r Cyhoeddwr yn mynd i ddwylo derbynnydd ceidw'r Cyngor yr hawl i hawlrwym hyd at werth 2% o werth manwerthu'r stoc.

Bydd y Cyhoeddwr yn caniatáu i'r Cyngor gymryd hyd at saith copi *gratis* o deitlau newydd o'r stoc at ei ddibenion ei hun, a rhagor o gopïau trwy drefniant.

X DELIFRO A DYCHWELYD NWYDDAU

Bydd y Cyhoeddwr yn gyfrifol am gludo'r nwyddau i'r Cyngor er y gall y Cyngor gasglu yn ôl ei ddewis. Os yw'r Cyngor yn casglu nwyddau oddi wrth y Cyhoeddwr y Cyngor fydd yn gyfrifol am y stoc cyn gynted ag y bydd wedi'i lwytho ar fan ddelifro'r Cyngor. Y Cyngor fydd yn gyfrifol am gludo dychweliadau i'r cyhoeddwr – oni bai bod y Cyhoeddwr yn gofyn am i lyfrau penodol gael eu dychwelyd; os felly y Cyhoeddwr fydd yn gyfrifol am gostau cludo oni bai bod y ceisiadau hynny'n ganlyniad gor-archebu pryd bydd y Cyngor yn gyfrifol am gostau cludo. Y Cyngor fydd yn atebol am niwed neu golled tra bod nwyddau ar y ffordd oddi wrth y Cyngor at y Cyhoeddwr neu ei gwsmeriaid.

Archwilir yr holl becynnau, cistiau ac ati a ddelifrir gan gludydd i'r Cyngor neu a gesglir gan fan ddelifro'r Cyngor, adeg eu derbyn, ym mhresenoldeb y cludydd. Lle bydd y nwyddau yn wahanol i'r hyn a fanylir ar y nodyn delifro neu'n ymddangos fel petai rhywun wedi ymyrryd â hwy neu wedi'u niweidio, cofnodir hynny ar daflen delifro'r cludydd, ac anfonir gwybodaeth ysgrifenedg i'r cyhoeddwr a'r cludydd o fewn 48 awr. Lle bydd pecynnau'n ymddangos mewn

cyflwr boddhaol rhoir llofnod clir. Bydd y nwyddau'n cael eu dadbacio a'u gwirio'n ddiymdroi ac unrhyw anghysondebau neu niwed eto'n cael eu hysbysu i'r Cyhoeddwr yn ysgrifenedig o fewn 24 awr.

XI DYCHWELIADAU O SIOPAU LLYFRAU

Tra bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau bod siopau llyfrau'n dychwelyd unrhyw gopiâu nas gwerthwyd mewn cyflwr gwerthadwy, mae'r Cyhoeddwr yn ymrwymo i dderbyn cyfrifoldeb ariannol am unrhyw ddychweliadau o siopau llyfrau gan gynnwys y rhai nad ydynt mewn cyflwr digon da i'w gwerthu. Dychwelir y rhain i'r Cyhoeddwr ynghyd ag unrhyw lyfrau diffygiol eraill, bob chwarter.

XII CYFRINACHEDD

Ni fydd y Cyngor na'r Cyhoeddwr, yn ystod bodolaeth y Cytundeb hwn, nac ar ôl ei derfynu, yn datgelu'n uniongyrchol nac yn anuniongyrchol i unrhyw gwmni, ffyrn na pherson, gynnwys y Cytundeb hwn nac unrhyw wybodaeth gyfrinachol a gafwyd yn ystod telerau'r Cytundeb hwn.

XIII CYFRIF STOC

Bydd y Cyngor yn ymgymryd â chyfrif stoc yn gorfforol unwaith y flwyddyn ac yn trosglwyddo'r adroddiadau i'r cyhoeddwr o fewn deg diwrnod ar hugain i gyfrif y stoc. Bydd y Cyngor yn atebol am unrhyw brinder net mewn stoc am ddim mwy na'r gwerth sylweddadwy net i'r Cyhoeddwr.

Gall y Cyhoeddwr, ar ôl rhoi rhybudd rhesymol, archwilio'r stoc a chyfrif y stoc ei hun os oes angen ac ar ei gost ei hun ac ar adegau rhesymol i'r Cyngor.

XIV TERFYNU

- a) Terfynir y cytundeb hwn yn ddiymdroi os bydd unrhyw barti'n cael ei ddatgan yn fethdalwrus neu'n gorffen masnachu.
- b) Gall y Cyngor derfynu'r Cytundeb hwn:
 - i) yn ddiymdroi drwy rybudd i'r Cyhoeddwr os yw'r Cyhoeddwr yn gorffen gweithredu ei fusnes neu sylwedd ei holl fusnes neu'n bygwth gwneud hynny (heblaw ar gyfer ailadeiladu neu gyfuno) neu yn gwerthu neu waredu mewn modd arall (naill ai drwy un gweithrediad neu ddau neu fwy o weithrediadau perthynol neu beidio) y cyfan neu ran sylweddol o'i weithrediadau neu asedau ac eithrio gyda chaniatâd ysgrifenedig blaenorol y Cyngor.
 - ii) yn ddiymdroi drwy rybudd i'r Cyhoeddwr os yw'r Cyhoeddwr yn cyflawni tor-cytundeb materol mewn perthynas â'r Cytundeb hwn ac, os oes posibilrwydd ei gywiro, os nad yw'n cael ei gywiro o fewn cyfnod o ddeng niwrnod ar hugain i dderbyn rhybudd ysgrifenedig gan y Cyngor i wneud hynny.
- c) Gall y Cyhoeddwr derfynu'r cytundeb hwn:

- i) yn ddiymdroi drwy rybudd i'r Cyngor os bydd y Cyngor yn gorffen gweithredu ei fusnes neu sylwedd ei holl fusnes neu'n bygwth gwneud hynny (heblaw at ddiben ailadeiladu neu gyfuno) neu'n gwerthu neu waredu mewn modd arall (p'un ai drwy un gweithrediad neu ddau neu fwy o weithrediadau perthynol neu beidio) y cyfan neu ran sylweddol o'i weithrediadau neu asedau ac eithrio gyda chaniatâd ysgrifenedig blaenorol y Cyhoeddwr.
 - ii) yn ddiymdroi drwy rybudd i'r Cyngor os bydd i'r Cyngor gyflawni tor-cytundeb materol mewn perthynas â'r Cytundeb hwn ac, os oes posibilrwydd ei gywiro, nad yw'r toriad yn cael ei gywiro o fewn cyfnod o ddeng niwrnod ar hugain o dderbyn rhybudd ysgrifenedig gan y Cyhoeddwr i wneud hynny.
 - iii) ar ei ddewis ei hun, drwy rybudd o ddim llai na chwe mis calendr i'r Cyngor.
- ch) terfynir y Cytundeb gan y naill barti neu'r llall, bydd y Cyngor yn ymgymryd â gwirio'r stoc fel ar ddyddiad y terfynu a bydd yn atebol am unrhyw brinder yn y stoc am gost uned unrhyw stoc colledig o'r fath; a bydd y Cyngor, o fewn 30 diwrnod o ddyddiad y terfynu, yn pacio'r holl stoc sy'n aros yng Nghanolfan Ddosbarthu'r Cyngor mewn modd priodol ac addas ac o fewn 30 diwrnod o ddyddiad y terfynu yn yswirio, yn anfon ac yn delifro'r cyfryw Nwyddau i unrhyw gyfeiriad a bennir gan y Cyhoeddwr.
- d) Os terfynir y Cytundeb hwn gan y Cyhoeddwr am unrhyw reswm bynnag, y Cyhoeddwr fydd yn gyfrifol am gost pacio a delifro'r stoc a ddelir iddo yn y Ganolfan Ddosbarthu.
- dd) Os terfynir y Cytundeb hwn, anfonir pob archeb ac ymholiad a dderbynnir gan y Cyngor ymlaen i'r Cyhoeddwr am gyfnod lleiaf o 180 o ddiwrnodau o ddyddiad y terfynu.

Llofnodwyd
Ar ran Cyngor Llyfrau Cymru

Dyddiad

Llofnodwyd
Ar ran

Dyddiad

Atodiad II: Llwybrau Critigol Cyhoeddi

Isod rydym wedi cynnwys canllawiau drafft BA/PA (Booksellers Association/ Publishers Association y DU) ar gyfer llwybr critigol/cylch bywyd teitl newydd. Llwybr critigol delfrydol yw hwn a bydd bob amser eithriadau o ran llyfrau byr-rybudd neu amserol. Mae'n fwy na thebyg y byddai angen addasu'r amserlen ar gyfer llyfrau sydd â darluniau lliw a argreffir yn y Dwyrain Pell. Gellid addasu'r manylion, wrth gwrs, i weddu i anghenion y farchnad yng Nghymru, ond bydd llyfrau Saesneg yn cystadlu gyda'r rhai a gyhoeddir mewn manau eraill yn y DG lle mae'n fwriad, ar bob ochr i'r fasnach, i wneud yr amserlen ganlynol yn safonol.

Bydd rhannau o'r cylch lawer yn fyrrach i lyfrau Cymraeg, ond dylid cytuno gyda phob ochr i'r fasnach lyfrau ar safon iddynt hwythau hefyd, a'i gweithredu'n llym ym mhob achos heblaw ychydig bach o achosion eithriadol.

Cylch Bywyd Teitl Newydd – Canllawiau Arfer Gorau

CYFLWYNIAD

Nod y canllawiau hyn yw helpu cyhoeddwr a llyfrwerthwr i werthu rhagor o lyfrau drwy ddarparu amlinelliad dangosol o gylch bywyd teitl newydd a'r wybodaeth y mae ei hangen ar bob parti i alluogi pawb i gyfarfod â'u nodau masnachol yn amserol.

Fframwaith leiaf yw'r hyn sy'n dilyn, nid 'rheolau' cadarn. Bydd cylch bywyd gwahanol fathau o gyhoeddiadau a theitlau unigol yn amrywio'n fawr, fel y bydd anghenion cwmnïau annibynnol. Dim ond i gyhoeddiadau masnach gyffredinol y DG a'u trefniadau masnachu gyda chwsmeriaid allweddol ar gyfer teitlau du a gwyn, y bydd rhai agweddau ar y ddogfen hon yn gymwys. Er hynny gobeithio y bydd pawb sy'n ymwneud â chyhoeddi a gwerthu llyfrau yn gallu defnyddio'r canllawiau hyn i feddwl yn ofalus am sut maent yn darparu a throsglwyddo gwybodaeth, fel y gall penderfyniadau masnachol allweddol gael eu gwneud yn fwy manwl-gywir, gan alluogi cadwyn gyflenwi fwy effeithlon ac felly osgoi gwastraff dianghenrhaid.

Crynodeb o'r prif bwyntiau:

- Dylid dilyn safonau amseru lle mae rhai (e.g. BIC Basic/ONIX ar gyfer cyflenwi gwybodaeth am gynnyrch, Dyddiadau Lawnsio, Codau Ymarfer ar gyfer teitlau allweddol, IRI ar gyfer paramedrau dychwelyd).
- Dylai cyhoeddwr gydymffurfio ag amserlenni BIC Basic ar gyfer darparu data cynnyrch allweddol (p'un a ydynt wedi'u hachredu dan gynllun BIC Basic neu beidio) ac, os yw'n bosibl, dylid cyflenwi data mewn fformat electronig cytunedig megis ONIX.
- Dylai cyhoeddwr osod dyddiadau cyhoeddi, prisiau a rhediadau argraffu darpariaethol mewn modd strwythuredig ymhell cyn y cyhoeddi.
- Dylai cyhoeddwr flaenoriaethu eu teitlau a chael Taflenni Blaen-Wybodaeth, cloriau a chopïau profennol (lle mae rhai ar gael) yn barod cyn gwneud cyflwyniadau i gwsmeriaid allweddol.

- Dylai cyhoeddwyr ddarparu gwybodaeth ynghylch pa deitlau sydd wedi'u trwyddedu ar gyfer cyhoeddiadau rhad/anghynhwysol/arbennig i gwsmeriaid allweddol a rhoi gwybod os bydd hynny'n newid.
- Dylai cyhoeddwyr ddarparu gwybodaeth am ba deitlau sydd wedi'u cytuno ar gyfer Dyddiadau Lawnsio ac/neu embargoau mewn da bryd i gwsmeriaid allweddol, y BA, yr asiantaethau llyfryddol a gwasg y fasnach.
- Dylai llyfrwerthwyr a chanolwyr (sef cyfanwerthwyr/marsiandiwyr/Canolfannau Dosbarthu manwerthu) gytuno ar hyrwyddiadau a gosod archebion cyn i'r penderfyniad argraffu dechreuol gael ei wneud.
- Dylai cyhoeddwyr ddilysu'r wybodaeth ddeliadol sydd ganddynt ar systemau dosbarthwyr cyn cyhoeddi.
- Dylai systemau dosbarthwyr weithio tuag at 'dim ond mewn pryd' i osgoi teitlau'n 'gollwng' yn gynnar a dylent hefyd wneud trefniadau addas ar gyfer delifro yn gynt i ganolwyr.
- Dylai cyhoeddwyr ddefnyddio data gwerthiant ac adroddiadau stocrestrau i asesu'r angen posibl am ailargraffu.
- Dylai pob parti danysgrifio i delerau safonol yr IRI (Industry Returns Initiative).

LLIF PROSES NODWEDDIADOL

Naw Mis cyn Cyhoeddi

Cyhoeddwyr

Blaenoriaethu teitlau ar gyfer cyflwyniadau dwywaith-y-flwyddyn – e.e. a) Allwedd b) Gadewch i ni Siarad c) Ôl-restr

Taflenni Blaen-Wybodaeth a chloriau llyfrau wedi'u cynhyrchu (yn cynnwys ISBN os yw ar gael)

Cyflwyniad cyntaf i gwsmeriaid allweddol: Chwefror/Mawrth ar gyfer teitlau Medi/ Ionawr
Ail gyflwyniad i gwsmeriaid allweddol: Awst/Medi ar gyfer teitlau Chwefror/Awst

Saith Mis cyn Cyhoeddi

Cyhoeddwyr

ISBN-10 a chod bar wedi'u dosrannu a chofnod teitl newydd BIC Basic wedi'i gyflenwi i asiantaethau llyfryddol a chwsmeriaid allweddol – mewn fformat electronig cytunedig megis ONIX os yn bosibl

(Noder: bydd ISBN-13 yn cymryd lle ISBN-10 o 1af Ionawr 2007)

Chwe Mis cyn Cyhoeddi

Cyhoeddwyr

Cofnod llyfryddol craidd (yn cynnwys dyddiad/mis/blwyddyn cyhoeddi a'r Pris Gwerthu (RRP) disgwylidig) yn gyflawn gydag asiantaethau llyfryddol a chwsmeriaid allweddol

Pum Mis cyn Cyhoeddi

Cyhoeddwy

Cofnod llyfryddol yn gyflawn ar gyfer achrediad BIC Basic
Cyflwyniadau misol cyntaf i gwsmeriaid allweddol
Rhybudd cyntaf am deitlau Dyddiad Lawnsio posibl i gwsmeriaid allweddol a gwefan BA
Rhybudd cyntaf o gyfresoliadau ac embargoau (lle bo hynny'n bosibl)
Rhybudd cyntaf o drwyddedu cyhoeddiad(au) rhad/anghynhwysol/arbennig a dyddiadau ar y farchnad (lle bo'n bosibl)

Llyfrwerthwyr

Cyflwyno rhybudd cyntaf o Ddyddiad Lawnsio posibl a ddewiswyd gan banel BA i'w gymeradwyo gan y cyhoeddwy

Pedwar Mis cyn Cyhoeddi

Cyhoeddwy

Mesur cyflawnrwydd y cofnod llyfryddol ar gyfer cynllun achredu BIC Basic
Cyflwyno gwybodaeth lyfryddol i Raglen CIP y Llyfrgell Brydeinig
Manylion teitlau Dyddiad y Lawnsio (Awdur/Teitl/ISBN/Dyddiad Lawnsio) yn fyw ar wefan y BA ac yng ngwasg y fasnach
Cytuno ar hyrwyddiadau gyda chwmseriaid allweddol

Llyfrwerthwyr a Chanolwyr

Cwsmeriaid allweddol i roi awgrym o archebion a gwerthiant arfaethedig (os yn bosibl)

Tri Mis cyn Cyhoeddi

Cyhoeddwy

Rhybudd terfynol o gyfresoliadau ac unrhyw embargoau
Dyddiad terfynol ar gyfer gwybodaeth am drwyddedu cyhoeddiad(au) rhad/anghynhwysol/arbennig a'r dyddiad ar y farchnad
Penderfynu ar y rhediad argraffu cyntaf a chadarnhau Pris Gwerthu (RRP) gyda'r asiantaethau llyfryddol a chwsmeriaid allweddol

Llyfrwerthwyr a Chanolwyr

Dyddiad terfynol i gwsmeriaid allweddol osod archebion (teitlau du a gwyn)

Dau Fis cyn Cyhoeddi

Cyhoeddwy a Dosbarthwyr

Argraffu cyntaf a delifro i'r dosbarthwr (gall ddibynnu ar y math o lyfr)
(Noder: Gall fod newidiadau pellach ar unrhyw adeg rhwng y pwynt hwn a chyhoeddi e.e. gall cyfresoli effeithio ar ddyddiadau)

Un Mis cyn Cyhoeddi

Cyhoeddwy

Y cyfle olaf i gytuno ar Ddyddiad Lawnsio gyda phanel y BA a chyflenwi manylion i'r BA a gwasg y fasnach

Llyfrwerthwyr a Chanolwyr

Y cyfle olaf i osod archebion ychwanegol i sicrhau eu bod yn cael eu hychwanegu at y rhaglenni rhyddhau i'w dosbarthu

(Noder: Agosaf i gyd at y cyhoeddi yw hi, lleiaf i gyd o warant fydd bod stoc ar gael oherwydd bydd penderfyniadau argraffu eisoes wedi'u gwneud)

Tair Wythnos cyn Cyhoeddi

Cyhoeddwy a Dosbarthwyr

Dilysu cofnod llawn y cynnyrch a ddelir gan yr asiantaethau llyfryddol

Dilysu'r wybodaeth ddeliadol a ddelir ar systemau dosbarthwyr. Cynnwys gwybodaeth am bris ac argaeledd yn y pynnu electronig beunyddiol i asiantaethau llyfryddol a chwsmeriaid allweddol

Un/Dwy Wythnos cyn Cyhoeddi

Dosbarthwyr

Delifro i gyfanwerthwyr marsiandïol, Canolfannau Dosbarthu manwerthu a chyflenwyr llyfrgelloedd

Un Wythnos cyn Cyhoeddi

Dosbarthwyr

Delifro i gyfanwerthwyr y fasnach, siopau llyfrau manwerthu a llyfrwerthwyr y Rhyngryd

Un neu Ddau Ddiwrnod cyn Cyhoeddi

Llyfrwerthwyr a Chanolwyr

Anfon llyfrau oddi wrth lyfrwerthwyr y Rhyngryd/cyflenwyr archebu-drwy'r-post i'r defnyddwyr

Cyhoeddi

Cyhoeddwy

Dylid cofnodi dyddiad cyhoeddi swyddogol, h.y. diwrnod penodol yn hytrach na mis y cyhoeddi

Llyfrwerthwyr

Llyfrau'n mynd ar werth i ddefnyddwyr mewn siopau llyfrau manwerthu. (Noder: ni ddylid gwerthu llyfrau cyn cyhoeddi dan God Ymarfer Dyddiadau Lawnsio)

Ar ôl Cyhoeddi

Cyhoeddwyr a Dosbarthwyr

Cyflenwi llyfrau ar adnau cyfreithiol i'r Llyfrgell Brydeinig
Dylid anfon newidiadau beunyddiol i wybodaeth am bris ac argaeledd i asiantaethau llyfryddol tra bod y teitlau yn parhau mewn print
(Noder: Dim ond pan fydd teitlau yn cyrraedd diwedd eu hoes y dylid darparu rhybudd statws Allan o Brint i'r asiantaethau llyfryddol. Gellir darparu pob datganiad arall o anargaeledd dros dro – e.e. Ailargraffu, Ystyried Ailargraffu, ac Allan o Stoc dros dro – rhwng y Dyddiad Cyhoeddi a chadarnhad ffurfiol o statws Allan o Brint)

Tri Mis ar ôl Cyhoeddi

Llyfrwerthwyr a Chanolwyr

Caniatáu i'r llyfrau cyntaf gael eu dychwelyd dan yr IRI.
(Noder: gall fod yn ddibynnol ar gytundebau hyrwyddo)

Pymtheg mis ar ôl Cyhoeddi

Llyfrwerthwyr a Chanolwyr

Caniatáu i'r llyfrau diwethaf gael eu dychwelyd (o ddyddiad yr anfoneb ddiwethaf) dan yr IRI
(Noder: Gall fod yn ddibynnol ar gytundebau hyrwyddo)

GWYBODAETH BELLACH

UK ISBN Agency

www.whitaker.co.uk/isbn.htm
isbn@nielsenbookdata.co.uk

ISBN-13

www.isbn-international.org

Bowker UK

www.bowker.co.uk
www.bowkerlink.co.uk

Nielsen BookData

www.nielsenbookdata.com

ONIX/BIC Basic & IRI

www.bic.org.uk

Rhaglen CIP y Llyfrgell Brydeinig

www.bibliographicdata.com

**Cod Ymarfer Dyddiadau Lawnsio
Menter Dychwelyd y Diwydiant (IRI)**

www.booksellers.org.uk

Adnau Cyfreithiol

www.bl.uk

Atodiad III: Dadansoddiad o Ymatebion yr Holiaduron

Holiadur Llyfrwerthwyr

Ceir Holiadur y Llyfrwerthwyr yn Atodiad IV. Cafodd ei ddrafftio gan yr ymgynghorwyr a'i newid yng ngoleuni awgrymiadau gan lyfrwerthwr Cymraeg annibynnol a rheolwr un o'r cadwyni cenedlaethol a Chyngor Llyfrau Cymru. Fe'i hanfonwyd allan yn Gymraeg ac yn Saesneg gydag amlen daledig i 115 o lyfrwerthwyr a derbyniwyd 35 yn ôl. Nid atebodd pob ymatebydd bob cwestiwn, ond yn gyffredinol roedd yr ymatebion yn fanwl ac adeiladol. Roedd nifer ac ystod yr atebion yn niferus ac yn ddigon eang i fod yn sampl arwyddocaol i dynnu rhai casgliadau ohono ynghylch barn y fasnach lyfrau yng Nghymru am y gwasanaeth cynrychiolaeth masnach, yn enwedig o'u gwirio yn erbyn barnau a dderbyniwyd yn ystod cyfweiliadau wyneb-yn-wyneb.

Maint

Atebodd naw ar hugain o siopau y cwestiwn hwn. Roedd naw ohonynt yn siopau mwy o faint neu'n ganghennau o gadwyni gyda throsiant blynyddol o fwy na £200k. Roedd y lleill yn yr ystod o £10k i £115k gyda chyfartaledd o £80k.

Cymysgedd gwerthiant: llyfrau fel canran o gyfanswm y gwerthiant

64% oedd cydran gwerthiant llyfrau o'r refeniw, ond gall hyn fod yn ffigur camarweiniol a grëwyd drwy gynnwys rhai siopau oedd â chanrannau gwerthu llyfrau o lai na 10%. Roedd gan o leiaf hanner y siopau werthiant llyfrau o dros 80% a chofnododd nifer 99-100% o werthiant llyfrau.

Llyfrau Cymraeg fel canran o gyfanswm gwerthiant llyfrau

Yma eto mae'r cyfartaledd, 33%, yn gamarweiniol. Adroddodd hanner y siopau ganrannau isel iawn, ffigurau sengl, tra bod 20% wedi adrodd 90% neu fwy o werthiant Cymraeg. Yn gyffredinol roedd y rheiny'n tueddu i fod yn siopau llai o faint tra bod y canrannau isel iawn mewn allanfeydd mwy, allanfeydd nwyddau cymysg, siopau llyfrau yn Ne a Dwyrain y wlad a changhennau o gadwyni'r DG.

Ysgrifennu Saesneg yng Nghymru fel canran o gyfanswm gwerthiant llyfrau

Cafwyd mwy o gydrywiaeth yma; rhoddodd 22 allan o'r 27 10% neu lai ac ni roddodd neb fwy na 40%. Adlewyrchwyd y gyfran isel iawn mewn ymatebion gan arbenigwyr Cymraeg a'r siopau mwy a changhennau'r cadwyni. Mae i'r gwahaniaeth hwn rhwng dwy ran y rhestr a gludir gan y cynrychiolwyr oblygiadau amlwg i'r adroddiad hwn.

Canran gwerthiant llyfrau a gynhyrchir gan lyfrau a gyflenwir gan CLIC

Trwy gymryd y ddau ffigur blaenorol gyda'i gilydd cafwyd ymateb arwyddocaol arall. 47% oedd y cyfartaledd, ond roedd tua hanner y llyfrwerthwyr, y siopau llai a'r arbenigwyr Cymraeg, yn cael eu holl lyfrau, neu'r rhan fwyaf o bell ffordd, gan CLIC, tra bod yr hanner arall yn yr ystod o 1% i 20% (ac yn bennaf yn rhan isaf yr ystod honno).

Ffynonellau cyflenwi eraill

Roedd y rhai oedd yn prynu'n bennaf gan CLIC hefyd weithiau'n prynu'n uniongyrchol gan gyhoeddwr Cymraeg, fel rheol am ei fod yn lleol. Roedd y rhai na phrynai lawer gan CLIC yn prynu gan y cyfanwerthwyr Prydeinig mawr ac yn uniongyrchol gan gyhoeddwyr yng Nghymru a Lloegr. Soniwyd am gwpwl o gyflenwyr canol eraill yng Nghymru.

Amllder galwadau'r cynrychiolwyr

Roedd tua 65% yn cael galwad bob mis neu chwe wythnos, 25% bob chwarter a'r gweddill weithiau neu byth. Roedd rhai o'r diwethaf yn siopau eithaf mawr ond gyda gwerthiant isel i gynnyrch CLIC.

Bodddhad â'r patrwm galw

Roedd y mwyafrif mawr yn fodlon â'r patrwm galw. Er hynny, roedd un neu ddau o'r rhai oedd yn cael galwadau anaml neu byth yn edifar am hynny a holodd un neu ddau pam roedd dau gynrychiolydd yn galw gyda nhw.

Gwybodaeth a gyflenwir gan gynrychiolwyr

Eto, roedd y rhan fwyaf yn fodlon, ond mynegodd pump neu chwech beth anfodlonrwydd, yn bennaf oherwydd diffyg gwybodaeth gadarn, yn enwedig am ddyddiadau cyhoeddi ac ati. Roedd o leiaf un yn cydnabod ei bod hi'n bosibl mai bai y cyhoeddwy oedd hynny.

Telewerthu yn ddewis arall?

Dywedodd chwech ar hugain na i'r syniad hwn, rhai'n gadarn iawn; dywedodd chwech ie. Dywedodd nifer eu bod yn hapus iawn â galwadau dydd Gwener cynrychiolwyr y Ganolfan Ddosbarthu a'r galwadau ychwanegol adeg y Nadolig.

Gwybodaeth e-bost yn ddewis arall?

Dywedodd pedwar ar bymtheg na i hyn (eto, rhai'n gadarn iawn) a dywedodd chwech ie. Dywedodd llawer eu bod yn hapus iawn ag ef fel dull ategol, ond nid yn lle cynrychioli wyneb-yn-wyneb, sy'n amlwg yn uchel ei werth gan nifer o'r cwsmeriaid.

Archebu drwy gwales

Rhaniaid gweddol gytbwys yma; 13 yn dweud ie a 15 na. Roedd cyfran uwch yn ei defnyddio am wybodaeth a nifer yn ymweld â'r wefan bob dydd.

CD-Rom

Rhaniaid tebyg 14:15 (ond nid yr un siopau ym mhob achos). Dywedodd dwy siop nad oeddent yn ei ddefnyddio oherwydd 'bugs' neu anghydnawsedd â'u cyfrifiaduron (gan awgrymu nad oedd ganddynt le i CD-Rom?)

Y System archeb sefydlog

Roedd tair siop ar ddeg, siopau arbenigol Cymraeg yn bennaf, yn ei defnyddio; dim ond ar gyfer Llyfr Cymraeg y Mis roedd tair yn ei defnyddio; ac un ar bymtheg ddim yn ei defnyddio yn cynnwys tair nad oedd wedi clywed amdani.

I'r rhai oedd yn ei defnyddio, roedd amrywiaeth o brynwyr terfynol i'r llyfrau: y cyhoedd yn gyffredinol, ysgolion a llyfrgelloedd.

Dychweliadau

Cafwyd gwahaniaeth barn diddorol yma. Roedd deuparth yr ymatebyddion o'r farn bod y gwasanaeth dychwelyd yn dda neu'n dda iawn tra bod y traean arall yn eithaf beirniadol, neu'n feirniadol iawn ohono, yn cwyno am safonau 'ffyslyd' neu or-fanwl. Roedd rhai o'r siopau mwy a'r cadwyni ymhlith y rhain. Gellir esbonio hyn gan y ffaith bod siopau mwy yn archebu mewn niferoedd mwy ac yn dychwelyd mwy ac/neu bod

mwy o drafod ar y llyfrau yn y siopau mwy neu'r canghennau, ond damcaniaethu yw hynny.

Graddio'r gynrychiolaeth fasnach yn gyffredinol

Cafwyd gwahaniaethau diddorol yma hefyd.

- Gwych 9
- Da 14
- Boddhaol 6
- Gwael 4
- Anfoddhaol iawn 4

Ar y dybiaeth bod CLIC yn anelu at gael Gwych neu Dda ac y byddai'n anhapus iawn gyda Gwael neu Anfoddhaol iawn, mae hwn yn ganlyniad positif ar y cyfan. Er hynny, mae yma achos pryder bod rhai o'r siopau mwy a'r canghennau yn rhoi graddau isel mewn cymhariaeth â chyflenwyr eraill ac mae i hyn oblygiadau yn enwedig i deitlau Saesneg o Gymru.

Awgrymiadau ar gyfer gwella

Efallai ei bod hi yn natur pethau nad atebodd llawer o'r ymatebyddion i'r cwestiwn hwn a bod a wnelo peth o'r feirniadaeth/awgrymiadau fwy â'r Ganolfan Ddosbarthu a/neu'r cyhoeddwr na'r cynrychiolwyr.

- Angen rhagor o hyforddi ar gynrychiolwyr
- Gwybodaeth wael, manylion am deitlau newydd, diffyg dyddiadau cyhoeddi cadarn
- Cynrychiolwyr yn dyblygu galwadau weithiau
- Dylid caniatáu i gynrychiolwyr wneud deliau (gyda chydsynied)
- Llyfrau allan o stoc yn rhy aml

Holiadur y Cyhoeddwr

E-bostiwyd yr holiadur hwn, sydd hefyd wedi'i gynnwys yn Atodiad IV, i 55 o gyhoeddwr yn Gymraeg a Saesneg. Oherwydd yr ymateb araf e-bostiwyd nodyn atgoffa hefyd cyn y dyddiad cau. Yn y diwedd dim ond 13 o atebion a dderbyniwyd ac ni ellir mewn gwirionedd gymryd hyn yn sail i ddadansoddiad meintiol. Er hynny, o'i gymryd gyda chanlyniadau'r cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb gyda chyhoeddwr Cymraeg a Saesneg yn unigol neu mewn grwpiau mae yn darparu data ansodol diddorol a gwerthfawr.

Y tu hwnt i hynny, mae cyfradd isel yr ymatebion yn codi nifer o gwestiynau oherwydd gellid ystyried mai'r cyhoeddwr fyddai o bosibl yn ennill fwyaf o'r gwasanaeth cynrychiolaeth masnach ac roedd canfyddiad, yn gyffredinol, eu bod yn debyg o fod â sylwadau mwy beirniadol na llyfrwerthwyr – fel y nododd un cyhoeddwr, mae cyhoeddwr yn wastad yn cwyno ynghylch eu cynrychiolwyr.

Mynegodd o leiaf un cyhoeddwr Cymraeg anghymeradwyaeth at yr holl broses, ac yn eu trafodaeth wyneb-yn-wyneb (a oedd yn agored ac adeiladol), dywedodd y grŵp cyhoeddwr Cymraeg, Cwllwm Cyhoeddwr Cymru, nad oedd rhai o'u haelodau am ateb yr holiadur o gwbl - neu o leiaf nifer o'r cwestiynau. Ar y llaw arall roedd LPW yn llawn ac yn agored yn eu hymatebion wyneb-yn-wyneb ac ysgrifenedig.

Maint a chymysgedd

Roedd deg ymatebydd yn fodlon ateb y cwestiwn hwn ac roedd ystod fawr iawn o £11k i bron £900k. Yn achos y rhai a atebodd roedd eu hincwm i gyd, neu bron i gyd, yn dod o werthu llyfrau (ac mewn rhai achosion cylchgronau), heblaw am grantiau a chymorthdaliadau.

Grantiau CLIC

Roedd bron i bob ymatebydd yn derbyn rhyw ffurf ar gymorth grant gan CLIC. Y defnydd mwyaf cyffredin oedd tuag at gostau cyhoeddi, ond mewn sawl achos derbyniwyd grantiau ym mhob categori.

Iaith cyhoeddi, cymysgedd a niferoedd

Roedd chwech o'r ymatebyddion yn cyhoeddi yn Saesneg yn unig a thri yn gyfan gwbl yn Gymraeg. Roedd y ddau ymatebydd mwyaf yn ôl referniw gwerthu yn cyhoeddi yn y ddwy iaith, ond gyda'r Saesneg yn darparu y rhan fwyaf o'u referniw gwerthiant.

Roedd cwpwl o gyhoeddwr nad oeddent yn cyhoeddi ond deunydd Saesneg i oedolion, ond roedd y gweddill bron i gyd yn cyhoeddi cymysgedd, gyda llyfrau plant yn chwarae rhan arwyddocaol, yn enwedig yn Gymraeg.

Dim ond ychydig o deitlau'r flwyddyn roedd y rhan fwyaf o'r ymatebyddion yn eu cyhoeddi, tra bod y ddau fwyaf yn cyhoeddi dros 50.

Gwerthiant yng Nghymru a gwerthiant drwy CLIC

Yn naturiol roedd y cyhoeddwr Cymraeg yn gwerthu popeth, neu bron bopeth yng Nghymru, a'r cyfan, neu bron y cyfan, drwy CLIC. Roedd y ddau gyhoeddwr mwyaf yn gwerthu'r rhan fwyaf o'u llyfrau yng Nghymru, ond nid oedd lleiafrif arwyddocaol o'u gwerthiant yng Nghymru yn mynd drwy CLIC ac mae hwn yn amlwg yn bwnc i'r adroddiad. Dim ond lleiafrif bach o'u llyfrau roedd cwpwl o'r cyhoeddwr Saesneg llai yn gwerthu yng Nghymru a lleiafrif o'r rheiny drwy CLIC. Mae i hyn hefyd oblygiadau arwyddocaol.

Lle roedd gwerthiant arwyddocaol heb fod drwy CLIC, roedd hi'n ymddangos mai drwy Camelot, Webbs neu ddsbarthwyr/gyfanwerthwyr yn Lloegr roeddent yn dod, gydag ychydig o werthu uniongyrchol.

Dulliau gwerthu

Ychydig neu ddim tystiolaeth o werthu uniongyrchol systematig a gafwyd o'r holiaduron a gwblhawyd, fodd bynnag, a dim ond un cyhoeddwr oedd yn cynnal nifer o droellwyr (roedd hanes y troellwyr yn yr Amgueddfa Genedlaethol yn bwnc i rai). Roedd dau gyhoeddwr yn gwneud peth telewerthu a dau'n gwerthu o'u gwefannau.

Gostyngiadau

Ac eithrio un cyhoeddwr Cymraeg, byddai pob ymatebydd yn fodlon rhoi gostyngiad ychwanegol i lyfrwerthwyr am ddeliau arbennig.

Gwerthuso

Cafwyd dau 'da' ac un radd 'gwyd' am y gwasanaeth cynrychiolaeth masnach, ond nifer o 'boddhaol', rhai braidd yn anfodlon, ynghyd â dau 'gwael' ac un 'anfodddhaol iawn'.

Ar y cyfan graddiwyd gwerthu teitlau newydd yn uwch, tra mai gwael oedd gwerthu ôl-restr ym marn y rhan fwyaf o ymatebyddion ac roedd bron pob un yn feirniadol iawn o ddiffyg adborth o'r farchnad ac adborth ar deitlau unigol. Ysgrifennodd un am 'wagle gwybodaeth'.

Soniodd nifer o ymatebyddion hefyd am yr angen am hyfforddiant gwerthu neu ddynesiad cadarnach at werthu.

Atodiad IV: Holiaduron

1. Holiadur Llyfrwerthwyr

Cynrychiolaeth Masnach Cyngor Llyfrau Cymru: Holiadur i Lyfrwerthwyr

Enw a chyfeiriad y siop lyfrau
Name and address of bookshop

Rhif ffôn
Telephone number
Cyfeiriad e-bost
e-mail address

Enw cyswllt
Name of contact

1. Cyfanswm bras referniw gwerthiant blynyddol y busnes
Approximate total annual business sales revenue

Llai na/Less than £5000 ; £5-7,500 ; £7,500-10,000 ;
£10- 15,000 ; £15- 20,000 ; £20- 25,000 ; £25- 30,000 ;
£30- 40,000 ; £40- 50,000 ; £50- 60,000 ; £60- 70,000 ;
£70- 85,000 ; £85- 100,000 ; 100- 115,000 ; £115-130,000 ;
£130- 150,000 ; £150-175,000 ; £175- 200,000 ; £200,000+ .

2. Canran referniw gwerthiant blynyddol a ddaw o werthiant llyfrau
Percentage of annual sales revenue generated by book sales

3. Canran gwerthiant llyfrau blynyddol a ddaw o lyfrau Cymraeg
Percentage of annual book sales generated by Welsh language books

4. Canran gwerthiant llyfrau blynyddol a ddaw o Ysgrifennu Saesneg o Gymru
Percentage of annual book sales generated by Welsh writing in English

5. Canran gwerthiant llyfrau blynyddol a ddaw o lyfrau a gyflenwir gan Gyngor Llyfrau Cymru

Percentage of annual book sales generated by books supplied by the Welsh Books Council

6. Prif ffynonellau eraill sy'n cyflenwi llyfrau (cyhoeddwyr neu gyfanwerthwyr)

Other main sources of book supply (publishers or wholesalers)

7. Pa mor aml mae cynrychiolwyr Cyngor Llyfrau Cymru yn galw?

Frequency of calls by Welsh Books Council representatives

8. A fyddai'n well gennych pe bai CLIC yn galw'n amlach neu'n llai aml?

Would you prefer WBC calls to be more or less frequent?

9. Oes gan eich cynrycholydd CLIC fel rheol ddigon o wybodaeth fanwl ac amserol am y llyfrau mae'n eu gwerthu i chi allu gwneud penderfyniad ynghylch archebu?

Does your WBC representative usually have sufficiently detailed and timely information about the books that they are selling for you to make a decision about ordering?

10. Os nad oes, pa wybodaeth neu ddeunyddiau gwerthu ychwanegol fydddech chi'n hoffi eu gweld?

If not, what extra or additional information or selling material would you like to see?

11. Fydddech chi'n hapus i wasanaeth gwerthu dros y ffôn gymryd lle / ategu'r galwadau i gyd neu rai ohonyn nhw?

Would you be happy for some or all calls to be replaced/supplemented by a telephone sales service?

12. Os felly, pa mor aml fydddech chi'n dymuno cael galwadau ffôn?

If yes, how frequently would you like to be called?

13. A fydddech chi'n hapus i wasanaeth gwybodaeth/archebu e-bost gymryd lle/ ategu rhai neu bob un o'r galwadau gan gynrychiolydd?

Would you be happy for some or all rep calls to be replaced/supplemented by an e-mail information/order service?

14. Ydych chi'n archebu llyfrau drwy wefan gwales? Os felly, pa mor aml?

Do you order books via the gwales website? If so how frequently?

15. Ydych chi'n defnyddio CD-Rom gwales yn ffynhonnell gwybodaeth?

Do you use the gwales CD-Rom as a source of information?

16. Ydych chi'n cyfranogi yng ngwasanaeth archeb sefydlog Cyngor Llyfrau Cymru? Os felly, oes gennych chi sylwadau ar ddefnydd ac effeithlonrwydd y gwasanaeth hwnnw?

Do you participate in the Welsh Books Council standing order service? If so do you have any comments on the use and effectiveness of this service?

17. I bwy, dybiech chi, rydych chi'n gwerthu'r copïau o lyfrau y byddwch yn eu derbyn drwy'r gwasanaeth archeb sefydlog?

To whom do you think that you sell the copies of the books that you receive through the standing order service?

Y cyhoedd yn gyffredinol?
General public?

Darllenwyr diddordeb arbennig?
Specially interested readers?

Casglwyr?
Collectors?

Ysgolion?
Schools?

Llyfrgelloedd?
Libraries?

18. Pa sylwadau sydd gennych ar brosesau Cyngor Llyfrau Cymru ar gyfer ymdrin â dychweliadau?

What comments do you have on the Welsh Books Council processes for handling returns?

19. Ar ba radd fydddech chi'n gosod gwasanaeth cynrychiolaeth masnach Cyngor Llyfrau Cymru?

How do you rate the Welsh Books Council trade representation service:

- | | |
|--------------------|---------------------|
| 1. Gwych | Excellent |
| 2. Da | Good |
| 3. Boddhaol | Satisfactory |
| 4. Gwael | Poor |
| 5. Anfoddhaol iawn | Very unsatisfactory |

Allech chi nodi rhesymau penodol am eich dewis?

Could you identify the particular reasons for this rating?

20. A oes gennych unrhyw awgrymiadau eraill ar gyfer gwelliannau y gellid eu gwneud i'r gwasanaeth cynrychiolaeth masnach?

Do you have any other suggestions for improvements that could be made to the trade representation service?

DIOLCH AM EICH HELP; MAE'N CAEL EI WERTHFAWROGI'N FAWR. Byddwch yn cael gwybod pan fydd canlyniadau ein hymgyngoriad ar gael i'r cyhoedd.

THANK YOU FOR YOUR HELP; IT IS GREATLY APPRECIATED. You will be notified when the outcomes of our consultancy are publicly available

Byddwch cystal â dychwelyd yr holiadur yn yr amlen stampiedig, erbyn dydd Gwener, Ebrill 29ain

Please return the questionnaire, using the pre-paid envelope, by Friday 29th April

2. Holiadur Cyhoeddwyr

Cynrychiolaeth Masnach Cyngor Llyfrau Cymru: Holiadur i Gyhoeddwyr

Enw a chyfeiriad y cyhoeddwyr
Name and address of publishing house

Rhif ffôn
Telephone number
Cyfeiriad e-bost
e-mail address

Enw cyswllt
Name of contact person

1. Cyfanswm bras refeniw gwerthiant blynyddol y busnes
Approximate total annual business sales revenue

Cyfanswm bras refeniw gwerthiant cyhoeddi blynyddol y busnes
Approximate total annual publishing sales revenue

2. Ydych chi ar hyn o bryd yn derbyn grantiau gan Gyngor Llyfrau Cymru ar gyfer:
Are you currently in receipt of grants from the Welsh Books Council for:

Comisiynu awdurdon
Commissioning authors
Costau cyhoeddi
Publishing costs
Gweithgaredd marchnata
Marketing activity
Cynnal swyddi staff
Supporting staff posts

3. Canran refeniw gwerthiant a ddaw o:
Percentage of sales revenue generated by:

1. Cyfanswm llyfrau Cymraeg:
Welsh language books total:

Oedolion:
Adult:

Plant
Children's

2. Cyfanswm llyfrau Saesneg o ddiddordeb Cymreig:
Welsh interest books in English total:

Oedolion
Adult:

Plant
Children's

4. Sawl llyfr newydd a gyhoeddir gennych bob blwyddyn?
How many new books do you publish each year?

Yn Gymraeg
In Welsh:

Yn Saesneg
In English:

Llyfrau Oedolion
Adult books

Llyfrau plant
Children's books

5. Canran o gyfanswm y gwerthiant a wneir yng Nghymru
Percentage of total sales made in Wales

6. Canran o werthiant llyfrau a gyflenwir drwy Gyngor Llyfrau Cymru
Percentage of book sales supplied through the Welsh Books Council

7. Ydych chi'n defnyddio cyfanwerthwyr/dosbarthwyr eraill yng Nghymru? Os felly allwch chi eu henwi?
Do you use other wholesalers/distributors in Wales? If so could you identify them?

8. Oes gennych chi ddosbarthwyr eraill ar gyfer gweddill y DG? Os felly allwch chi eu henwi?
Do you have other distributors for the rest of the UK? If so could you identify them?

9. Ydy'ch busnes chi yn cynnal ei ymweliadau ei hunan â manwerthwyr llyfrau yng Nghymru?
Does your business make it's own sales visits to book retail accounts in Wales?

Os felly ydych chi'n cyflogi rhywun i werthu drosoch chi?
If so, do you employ someone to sell for you?

Neu ydy ymweliadau gwerthu yn digwydd yn achlysurol neu'n rhan-amser gan rywun sy'n gwneud gwaith arall yn y busnes?
Or, are sales calls made on an occasional or a part-time basis by someone who does other work in the business?

10. Ydych chi'n cadw troellwyr mewn unrhyw fannau gwerthu yng Nghymru?
Do you maintain spinners in any retail outlets in Wales?

Os felly, mewn sawl cyfrif gwahanol?
If so, in how many different accounts?

Allwch chi ddweud sawl un sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd?
Can you say how many are currently in operation?

11. Ydych chi'n gwerthu i gyfrifon busnes (cyfanwerthwyr neu fanwerthwyr) yng Nghymru drwy'ch gwefan?
Do you sell to trade (wholesale or retail) accounts in Wales via your website?

12. Ydych chi'n gwerthu i gyfrifon masnach yng Nghymru drwy delewerthu?
Do you sell to trade accounts in Wales by telesales?

13. Fyddech chi'n rhoi gostyngiad ychwanegol i Gyngor Llyfrau Cymru ar werthiannau penodol er mwyn iddo gael ei basio ymlaen i gefnogi hyrwyddiad arbennig neu archeb fawr gan fanwerthwr?
Would you give an extra discount to the Welsh Books Council on certain sales so that it could be passed on to support a special promotion in, or large order from, a retail outlet?

14. Oes ffyrdd eraill y credwch y gallai cyhoeddwyr helpu CLIC i werthu rhagor o lyfrau yng Nghymru?
Are there other ways that you think that the WBC could be helped by publishers to sell more books in Wales?

Os felly, nodwch:
If so, please specify:

15. Ar ba radd fydddech chi'n gosod cynrychiolaeth masnach Cyngor Llyfrau Cymru yn gyffredinol:
How do you rate the Welsh Books Council trade representation service overall:

- | | |
|-------------|--------------|
| 1. Gwych | Excellent |
| 2. Da | Good |
| 3. Boddhaol | Satisfactory |

- 4. Gwael Poor
- 5. Anfoddhaol iawn Very unsatisfactory

Allwch chi roi'r rhesymau penodol am eich dewis?
Could you give the particular reasons for this rating?

16. Ar ba radd fydddech chi'n gosod y gwasanaeth cynrychiolaeth masnach yn benodol o ran:

How do you rate the trade representation service specifically in terms of:

- 1. Hyrwyddo teitlau newydd
Subscribing new titles
- 2. Gwirio a chyflenwi ôl-restr
Checking and replenishing backlist
- 3. Datblygu mentrau marchnata gyda manwerthwyr, a drefnir ar hyn o bryd gan Wendy Morris/Matthew Howard
Developing marketing initiatives with retailers, currently organized by Wendy Morris/Matthew Howard
- 4. Adborthi gwybodaeth am y farchnad
Feeding back market information

17. Pa sylwadau sydd gennych am brosesau CLIC ar gyfer ymdrin â dychweliadau?
What comments do you have on the WBC's processes for handling returns?

18. Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwelliannau y gellid eu gwneud i'r gwasanaeth cynrychiolaeth masnach?

Do you have any suggestions for improvements that could be made to the trade representation service?

DIOLCH AM EICH HELP; MAE'N CAEL EI WERTHFAWROGI'N FAWR. Cewch wybod pan fydd canlyniadau ein ymgynghoriad ar gael i'r cyhoedd
THANK YOU FOR YOUR HELP; IT IS GREATLY APPRECIATED. You will be notified when the outcomes of our consultancy are publicly available

Byddwch cystal â dychwelyd yr holiadur drwy'r e-bost erbyn dydd Gwener, Ebrill 29ain
Please return the questionnaire by e-mail, by Friday 29th April